



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

# 2013/14

## Adroddiadau a Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

Rhif elusen 1034245





# Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol

## Cynnwys

### Adroddiad Blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 03
  - Datganiad Llywodraethu Blynyddol 06
- Adroddiad Amgylcheddol 43
- Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol 47
- Datganiad cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu 49

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru 50

### Datganiadau ariannol:

- Datganiad gweithgareddau ariannol 52
- Mantolen 53
- Datganiad llif arian 54
- Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol 55

### Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol (nad yw'n rhan o'r datganiadau ariannol):

- Grantiau 80

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Iaith Arwyddion Prydain, Hawdd ei Darllen a sain. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn bolisi cyfle cyfartal.





*BIANCO*, NoFit State (Ilun: Richard Davenport)

Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014  
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Manylion cyfeiriol a gweinyddol

*Ymddiriedolwyr*

Aelodau o'r Cyngor a wasanaethodd er 1 Ebrill 2013:

		Mynychu cyfarfodydd yn 2013/14			
		Y Cyngor	Y Pwyllgor Archwilio	Y Pwyllgor Cyfalaf	Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol <sup>1</sup>
		Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
		6	5	5	0
Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd	(c)	6			Cadeirydd Pwyllgor Amherthnasol
Dr Kate Woodward, Is-gadeirydd	(d)	3			
Emma Evans (hyd 31 Mawrth 2014)	(a)	5	Cadeirydd Pwyllgor (hyd fis Mawrth 2014) 5		
Dr John Geraint	(a)(c)	4.5	Cadeirydd Pwyllgor (o Ebrill 2014 ymlaen) 1/1		Amherthnasol
Michael Griffiths OBE	(a)	4.5	3.5		
Melanie Hawthorne		5			
Dr Lesley Hodgson	(a)	3.5	0/1		
Margaret Jervis MBE DL	(c)(v)	4.5			Amherthnasol
Marian Wyn Jones	(i)(iii)	4			
Andrew Miller		6			
Osi Rhys Osmond	(d)	5			
Richard Turner	(ii)(iv)	5			
Alan Watkin	(a)(b)	6	(hyd fis Rhagfyr 2013) 3/4	5	
Yr Athro Gerwyn Williams	(b)	3		Cadeirydd Pwyllgor 5	
John C Williams	(a)(b)	6	(hyd fis Rhagfyr 2013) 4/4	2	

Mynychu cyfarfodydd yn 2013/14					
Y Cyngor	Y Pwyllgor Archwilio	Y Pwyllgor Cyfalaf	Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol <sup>1</sup>		
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:					
6	5	5	0		
<i>Presenoldeb aelodau <b>annibynnol</b> ar y pwyllgorau:</i>					
Gareth Jones	(a)		5		
Phillip Westwood	(a)		4		
Jonathan Adams (hyd fis Hydref 2013)	(b)			2/3	
Mark Davies	(b)			4	
Roland Wyn Evans	(b)			4	
Alan Hewson (a benodwyd fis Mawrth 2014)	(b)			1/1	
Janet Roberts (hyd fis Hydref 2013)	(b)			1/3	

<sup>1</sup> Yn absenoldeb canllawiau oddi wrth Lywodraeth Cymru o ran tâl y Cadeirydd a chyflog y Prif Weithredwr, ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystod 2013/14.

- (a) Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
- (b) Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf
- (c) Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- (d) Aelod o Bwyllgor Cymru yn Fenis

Am ran o leiaf ran o'r cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn sôn amdano, gwasanaethai aelodau o'r Cyngor hefyd (gyda rhifau mewn cromfachau ar ôl eu henwau yn y rhestr uchod) yn Aelodau neu'n uwch weithwyr o'r cyrff cyhoeddus canlynol:

- (i) Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- (ii) Cyngor Sir Fynwy
- (iii) S4C
- (iv) Prifysgol Cymru
- (v) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

*Prif Weithredwr*

Nicholas Capaldi

*Swyddfeydd*

*Rhanbarth y Canolbarth a'r  
Gorllewin:*

Y Mount  
18 Stryd y Frenhines  
Caerfyrddin  
SA31 1JT

*Rhanbarth y Gogledd:*

Parc y Tywysog II  
Rhodfa'r Tywysog  
Bae Colwyn  
LL29 8PL

*Rhanbarth y De  
a'r swyddfa genedlaethol:*

Plas Bute  
Caerdydd  
CF10 5AL

*Archwilydd*

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

*Archwilwyr mewnol*

Deloitte LLP  
5 Sgwâr Callaghan  
Caerdydd  
CF10 5BT

*Cyfreithwyr*

Geldards LLP  
Tŷ Dumfries  
Plas Dumfries  
Caerdydd  
CF10 3ZF

*Bancwyr*

The Co-operative Bank  
16-17 Stryd Fawr  
Caerdydd  
CF10 1AX

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r datganiad llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol imi, Nicholas Capaldi. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio trefniadau llywodraethu Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r datganiad hwn hefyd yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau am sicrhau ein bod yn cynnal ein busnes, o ran gweithgarwch y trysorlys a'r loteri, yn unol â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sicrwydd angenrheidiol ein bod yn glynu at y safonau cywir a sefydlu'r trefniadau diogelu angenrheidiol i amddiffyn ein defnydd o arian y cyhoedd. Esboniaf sut y cyfrifyddir yn gywir am yr arian hwn a'i ddefnyddio'n gynnil, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau Cyngor Celfyddydau Cymru.

### Am Gyngor Celfyddydau Cymru:

Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 a nod ei fodolaeth yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwneud hyn er budd pobl ledled Cymru ac er mwyn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn gorff sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac yn Ddosbarthwr y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestredig (rhif 1034245).

Mae Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru yn disgrifio amcanion y Cyngor. Dyma'r amcanion:

- datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u hymarfer;
- gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd; a,
- gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Cydweithiwn hefyd â chyrff cyhoeddus eraill Cymru a Chynghorau Celfyddydau eraill Prydain, i gyflawni'r amcanion hyn. Gellwch ddod o hyd i gopi o'n Siarter Frenhinol ar ein gwefan.

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd penodol sydd wedi'i reoli'n ofalus. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Weinidog

Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant a Chwaraeon. Mae'n rhaid inni weithredu mewn fframwaith a noda'r telerau a'r amodau y glyna Gweinidogion Cymru atynt wrth roi inni ein harian grant mewn cymorth ac sy'n nodi sut y gallwn ei ddefnyddio.

Ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae'n rhaid inni hefyd weithredu yn unol â'r canllawiau yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*. Mae'r gweithgareddau yr ydym yn eu gwneud mewn cysylltiad â'n *Cynllun Casglu* a'n Cynllun Benthyciadau i Artistiaid yn ddarostyngedig i Ddeddf Credyd y Defnyddwyr ac i'r arweiniad sy'n cael ei gyflwyno gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rydym yn ddosbarthwr arian y Loteri sydd, dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) yn golygu ein bod yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol Prydain dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rydym yn cael ein cyfarwyddiadau ariannol oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn nodi sut y bydd yn rhaid inni weithredu o ran gweithgareddau dosbarthu arian y loteri.

Mae'n rhaid inni gyfrifyddu ein gweithgareddau dosbarthu arian y loteri ar wahân i weddill ein gweithgareddau, ac mae'n rhaid inni hefyd gael trefniadau priodol ar waith i sicrhau ein bod yn cynhyrchu dwy set o ddatganiadau ariannol cyhoeddedig. Archwilir ein cyfrifon Dosbarthu'r Loteri ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

A ninnau'n elusen, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Elusennau 1960, 2006 a 2011, a dilyn canllawiau sy'n cael eu cyflwyno gan y Comisiwn Elusennau.

Rydym wedi dylunio ein systemau a'n prosesau i gymryd i ystyriaeth y gwahanol gyfrifoldebau hyn. Yn y fframweithiau hyn, gwnawn benderfyniadau annibynnol o ran cyfeiriad strategol y sefydliad, ariannu grant a phenderfyniadau ariannol eraill.



Petai'r angen yn codi, mae'r canlynol yn gallu ymchwilio i fusnes Cyngor Celfyddydau Cymru: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu, y Comisiwn Elusennau, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Ein trefniadau Llywodraethu:

Rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr – y Cyngor – sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Cadeirydd a thri aelod ar ddeg (pedwar ar ddeg hyd at 31 Mawrth 2014) y mae un ohonynt yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd. Ers mis Mawrth 2013 bu Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant a Chwaraeon yn gyfrifol am benodi ein hymddiriedolwyr, y mae pob un ohonynt yn dod ag arbenigedd a gwybodaeth benodol at y gwaith o ran arolygu a datblygu ein gweithgareddau.

Fel arfer mae penodiadau'n parhau am gyfnod o dair blynedd ac y mae modd adnewyddu'r cyfnod hwn ddwywaith ond nid rhagor. Mae Cadeirydd y Cyngor yn cael ei dalu; Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyfraddau'r tâl yn flynyddol. Mae pob aelod arall yn cyfrannu ei amser a'i arbenigedd yn wirfoddol ond mae pob un yn cael ei dalu'n ôl am dreuliau parod a gaiff ar fusnes y Cyngor. Mae crynodeb yn nodyn 9b o'r datganiadau ariannol hyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ein cyfeiriad strategol ac am reoli ein sefydliad. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau drwof, a minnau'n Brif Weithredwr, ein bod yn gweithredu yn unol â'r fframwaith polisi sy'n cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru a'n bod yn bodloni gwahanol gyfrifoldebau eraill y mae'n rhaid inni eu cyflawni. Mae'r Cadeirydd mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r Gweinidog ac mae'r Prif Weithredwr yn cyfarfod yn chwarterol â swyddogion gan gyflwyno diweddariadau iddynt.

A hwythau yn y pen draw yn gorff penderfynu terfynol Cyngor Celfyddydau Cymru, mae aelodau o'r Cyngor wedi cadw i'w hunain benderfyniadau allweddol ar bolisi corfforaethol, llunio ein cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ac unrhyw newidiadau mawrion i

delerau ac amodau gwasanaeth y staff. Aelodau o'r Cyngor hefyd sy'n pennu'r gyllideb flynyddol, penderfynu ar y dyraniad blynyddol o grantiau i sefydliadau sy'n cael arian refeniw a chymeradwyo pob grant dros £50,000, neu dros £250,000 yn achos prosiectau cyfalaf gydag arian y Loteri. Mae penderfyniadau ar grantiau sy'n is na'r trothwyon hyn yn cael eu dirprwyo i aelodau awdurdodedig o'r staff ar gyfer grantiau ac i'r Pwyllgor Cyfalaf ar gyfer prosiectau cyfalaf.


I gefnogi ei waith, penododd y Cyngor dri phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol. Dyma nhw: y Pwyllgor Archwilio; y Pwyllgor Cyfalaf; a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol. Mae gan y Cyngor hefyd bwyllgor ymgynghorol *ad hoc* i'w gynghori ar Gymru yn Fenis, a grwpiau monitro mewnol sydd, drwy gyfrwng yr Uwch Tîm Rheoli, yn estyn cymorth i'r Cyngor wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

Mae pob pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, y mae un ohonynt yn ymgymryd â swydd y cadeirydd, ac unigolion cyfetholedig. Mae'n rhaid i bob pwyllgor hefyd weithredu dan gylch gorchwyl penodol. Penodir aelodau annibynnol oherwydd eu sgiliau a'u profiad arbenigol, drwy broses ddethol agored. Mae cofnodion pob cyfarfod o'r pwyllgorau'n cael eu cyflwyno i gyfarfod llawn nesaf y Cyngor ac mae'n rhaid i bob pwyllgor gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor sy'n crynhoi gwaith y pwyllgor.

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor a phob aelod newydd o bob pwyllgor yn mynd drwy broses sefydlu sy'n briodol i'w swyddogaeth ac maent yn cael eu hannog i barhau â'u datblygiad yn ystod amser eu penodiad.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Cyngor wedi adolygu a diweddarau'r cylch gorchwyl ar gyfer pob un o'r pwyllgorau, ac mewn rhai achosion newidiodd y Cyngor aelodaeth pwyllgorau. Er mwyn darparu sicrwydd pellach, roedd y Cyngor wedi ehangu swyddogaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phenodiadau i gynnwys arolygu Adnoddau Dynol hefyd.

Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd i'r Cyngor ar bwnc effeithiolrwydd ein



llywodraethu, perygl rheoli a threfniadau rheoli mewnol. Adroddodd i'r Cyngor am brif ganolbwynt ei waith, gan gynnwys ein trefniadau llywodraethu mewnol, datblygiad y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol; monitro trefniadau ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw; a'r rhaglen archwilio fewnol a rhoddwyd sicrwydd sylweddol neu'n uwch i'r rhan fwyaf o'r adolygiadau hynny.

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor ar ddatblygu polisi am bob agwedd ar ddatblygu cyfalaf, gan gynnwys blaenoriaethau ariannu a chynlluniau. Mae gan y Pwyllgor Cyfalaf awdurdod dirprwyedig er mwyn penderfynu'n ariannol ar grantiau cyfalaf y loteri o £50,001 hyd at £250,000. Mae'r Pwyllgor Cyfalaf yn gwneud argymhellion am grantiau cyfalaf mwy i'r Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn gyfrifol am adolygu perfformiad y Prif Weithredwr yn ôl yr amcanion sydd wedi'u cytuno ac am osod y targedau ar gyfer y flwyddyn a ddaw. Cytuna hefyd ar lefel tâl y Cadeirydd yn y terfynau a osododd

Gweinidogion Cymru. Yn y dyfodol bydd yn cymryd cyfrifoldeb am fonitro materion Adnoddau Dynol ar ran y Cyngor.

Ni chyflwynodd y Pwyllgor Cyfalaf na'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol adroddiad blynyddol ffurfiol gerbron y Cyngor.

Ceir manylion aelodaeth y Cyngor a'r tri phwyllgor hyn a hefyd fanylion presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn adran *Manylion cyfeiriol a gweinyddol* ar ddechrau Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

Pwyllgor Ymgynghorol Fenis oedd yn gyfrifol am ddatblygu ac arolygu trefnu ein presenoldeb yn Biennale Celf Fenis yn 2013.

Mae'r Uwch Tîm Rheoli yn cael ei arwain gennyf, gyda chefnogaeth pum Cyfarwyddwr sydd bob un yn gyfrifol am agweddau penodol ar ein gwaith. Mae Cyfarwyddwyr y Celfyddydau; Ymgysylltu ac Ymgyfranogi; a Menter ac Adfywio yn ffurfio tîm Datblygu'r Celfyddydau ac mae'r Cyfarwyddwyr Cyllid ac Adnoddau; a Gwasanaethau Buddsoddi ac

Ariannu yn ffurfio tîm y Gwasanaethau Corfforaethol. Mae gennyf hefyd dîm y Prif Weithredwr. Mae rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac yn nodyn 9 o'r datganiadau ariannol hyn.

Mae gennym hefyd ddau grŵp monitro mewnol, sef Grŵp Monitro'n Strategol y Cydraddoldebau a Grŵp Monitro'r Gymraeg, i yrru ymlaen gwaith a dyheadau'r Cyngor o ran y meysydd hyn. Cynhyrchodd Grŵp Monitro'n Strategol y Cydraddoldebau Adroddiad Tegwch Blynyddol cynhwysfawr ar gyfer 2012/13 a archwiliodd ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw a'n pobl – ein staff, ein pwyllgorau a'n hymgynghorwyr – a hynny'n fanwl. Yn yr adroddiad hefyd roedd enghreifftiau perthnasol o waith arall yr ydym wedi'i ariannu. Gellir gweld copi ar:

<http://www.celfcymru.org.uk/celfyddydau-cymru/ymgysylltu-ac-ymgyfranogi/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth>. Cafodd diweddariadau chwarterol gan y ddau grŵp eu cyflwyno gerbron y Cyngor.

Mae ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol yn cael eu penodi drwy broses o recriwtio agored ac maent yn dod â gwybodaeth arbenigol i gefnogi datblygiad polisi, asesu ceisiadau am grantiau a darparu cyngor i'n swyddogion.

### **Rydym yn hyrwyddo gwerthoedd llywodraethu da:**

Rydym yn cefnogi saith egwyddor yr Arglwydd Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob un o'n gweithwyr, ein Hymddiriedolwyr, Aelodau o'n Pwyllgorau a'n Hymgynghorwyr Cenedlaethol yn cymhwyso'r egwyddorion hyn ac yn glynu wrthynt.

I gefnogi hyn, mae gennym Gôd Ymarfer Gorau sy'n gymorth wrth sicrhau y diffinnir yn glir swyddogaethau a chyfrifoldebau ein haelodau a'n swyddogion. Mae hefyd yn cynnwys y safonau o briodoldeb a ddisgwylir i aelodau a'r staff lynu wrthynt. Cafodd y Côt ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod y flwyddyn. Mae modd dod o hyd i gopi ar ein gwefan.

Rydym yn mynnu bod pob aelod o'r Cyngor, pob Aelod o'n Pwyllgorau, pob un o'n

Hymgynghorwyr Cenedlaethol a phob aelod o'n staff yn llenwi datganiad blynyddol sy'n datgan budd a sicrhau nad oes oedi wrth roi gwybod inni am unrhyw newidiadau perthnasol yn eu hamgylchiadau. Mae cofrestr fudd yr Aelodau o'n Cyngor a'n Pwyllgorau a'n Hymgynghorwyr Cenedlaethol ar gael i'r cyhoedd gael ei gweld, o wneud apwyntiad, ymhob un o swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystod oriau gwaith arferol.

Mae adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu cylchredeg ymlaen llaw cyn pob cyfarfod o'n Cyngor a'n Pwyllgorau ar gyfer ystyriaeth gan aelodau, gan dderbyn eitemau a gyflwynir ac adroddiadau ar lafar dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Mae modd dod o hyd i gopiâu o agenda a chofnodion cyfarfodydd ein Cyngor ar ein gwefan.

Rhan o'n hymrwymiad i wella ein perfformiad yw'n hawydd i ddysgu oddi wrth gyrff cyhoeddus tebyg eraill. Gan gydweithio â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ni oedd y Corff cyntaf sy'n cael ei Noddi gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymweliadau cilyddol i Gadeiryddion Archwiliad i fynd i Bwyllgorau Archwilio ein gilydd fel sylwedyddion.

Er nad yw'r côd am Lywodraethu Corfforaethol a gyflwynwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi yn uniongyrchol gymwys i Gyngor Celfyddydau Cymru, rwyf yn fodlon, a minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, bod y trefniadau yr ydym wedi'u sefydlu'n adlewyrchu ymarfer da. Rwyf hefyd yn credu bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cydymffurfio ag egwyddorion atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth y soniwyd amdanynt yng nghôd y Trysorlys i'r graddau y maent yn berthnasol i gyrff sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru ac i ddsbarthwyr y Loteri. Mae'r Cyngor yn cytuno â'r farn hon.

### **Gwnawn benderfyniadau cytbwys:**

Caiff penderfyniadau'r Cyngor a'i bwyllgorau eu llywio gan gyngor a ddarparwyd gan staff Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn disgwyl i ddogfennau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Yn yr enghreifftiau prin pan nad yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn

bodloni ein safonau, rydym yn gwrthod y ddogfen a chomisiynu un arall yn ei lle. Lle bo'n briodol, mae cyngor gan ein swyddogion yn cael ei ategu gan gyngor arbenigol oddi wrth ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol a, lle mae'n berthnasol, gyda chyngor arbenigol a barn gyfreithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod ganddo ddigon o amser i ystyried yn bwylllog a chyd-drafod polisi Cyngor Celfyddydau Cymru a'i gyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Roedd y Cyngor yn fodlon ar brydlondeb y data a'r wybodaeth a'u safon a gafodd eu darparu ar ddefnydd y Cyngor a bod y wybodaeth a ddarparwyd o ran cyllid grant yn ddibynadwy. Adolygir yn flynyddol y systemau a ddefnyddir i ddarparu'r wybodaeth yn rhan o'r rhaglen archwilio fewnol.

Ymgynghorir ar gynigion polisi allweddol ymhlith y cyhoedd. Caiff trafodaethau'r Cyngor eu llywio ymhellach gan yr ymatebion a'r adborth cyn penderfynu'n derfynol ar y polisïau.

### **Materion a gafodd eu hystyried gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn:**

Roedd y Cyngor wedi cyfarfod chwe gwaith yn 2013/14 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd y pymtheg aelod gyfanswm o 69 gwaith allan o 90 gwaith bosibl. Ymhob achos cafwyd esboniadau boddhaol am absenoldeb. Byddwch yn gallu gweld manylion mynychu'r unigolion ar ddechrau Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

Mae *Creadigrwydd a'r Celfyddydau*, ein strategaeth i ddatblygu'r celfyddydau, yn disgrifio sawl her bwysig i'r celfyddydau dros y blynyddoedd nesaf a hon sy'n sail i Gynllun Corfforaethol 2013-2018. Cafodd datblygiad y strategaeth ei llywio gan gyfres o gyfarfodydd agored – dan y teitl Sgwrs Gelfyddydol – gyda rhanddeiliaid ac eraill a oedd â diddordeb. Roedd aelodau o'r Cyngor yn rhan weithredol o fwrw ymlaen â'r darn allweddol hwn o waith.

Fel rhan o gyfrifoldebau llywodraethu'r Cyngor, derbyniodd yn rheolaidd adroddiadau monitro ariannol; diweddariadau ar feysydd allweddol perfformiad Cyngor Celfyddydau Cymru gan gynnwys y Cynlluniau Gweithredol,

Cydraddoldebau Strategol a'r Gymraeg; a monitro adroddiadau ar ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw. Yn y rhan fwyaf o'r meysydd hyn gwnaed cynnydd boddhaol ond yn anffodus collasom ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl. Rydym yn bwriadu ailgynnig am yr achrediad hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Darparwyd diweddariadau rheolaidd ar brosiectau a oedd yn strategol bwysig, gan gynnwys WOMEX13 a Fenis 2013 a oedd yn uchel eu proffil a llwyddiannus iawn. Roedd hefyd gyflwyniadau gan ein Rheolwyr Portffolio, oddi wrth rai o'r Cwmnïau Cenedlaethol ym mhorthffolio ein sefydliadau sy'n cael arian refeniw ac oddi wrth *Goreo Cymru*, y cynhyrchydd creadigol i ddawns yng Nghymru.

Cafodd tri sefydliad sy'n cael arian refeniw anawsterau difrifol yn ystod y flwyddyn. Roedd y Cyngor wedi ystyried adroddiadau ac argymhellion oddi wrth swyddogion ac ymgynghorwyr arbenigol o ran y sefydliadau hyn. Mewn rhai achosion, mynnodd y Cyngor gael newidiadau sylweddol yn y sefydliadau yn amod iddynt barhau i gael arian gennym er mwyn ceisio diogelu eu dyfodol. Bydd yr holl sefydliadau hyn yn parhau i gael eu monitro'n drylwyr iawn nes y daw amser pan deimlwn yn hyderus eu bod wedi ymsefydlogi ac o ran gweithredu eu bod yn gynaliadwy.

Yn sgil cyflwyno ein strwythur sefydliadol newydd ym Mai 2012, rydym wedi comisiynu arolygon o'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid allanol ac o'n staff i lwyio adolygiad cychwynnol o effeithiolrwydd y trefniadau newydd. Yn ystod 2014/15 byddwn yn ystyried ble y bydd angen gwneud gwaith pellach ac ymateb yn briodol.

Canlyniad hunanasesiad blynyddol y Cyngor oedd bod y Cyngor yn fodlon bod y rhan fwyaf helaeth o ddangosyddion effeithiolrwydd unwaith eto wedi cael eu diwallu a'i fod yn fodlon ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn a chydag effeithiolrwydd cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru. Yn gysylltiedig â hyn ac yn rhan o'i ymrwymiad i ragoriaeth a gwella'n barhaus, mae'r Cyngor yn bwriadu blaenoriaethu, dros y flwyddyn i ddod, bolisi a'i weithredu drwy ddyfnhau ei berthynas â'r Uwch

Tîm Rheoli ac aelodau allweddol eraill o'r staff, a gwella'n bellach cyfliniad strategaeth a phennu cyllidebau.

### Rydym yn darparu arian i drydydd bartïon:

Un o weithgareddau allweddol y sefydliad yw dosbarthu arian i sector y celfyddydau yng Nghymru. Rydym yn ddosbarthwr arian o bwys – arian oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill, gan gynnwys arian Ewrop – ac rydym yn cymryd o ddifrif y fath gyfrifoldeb pwysig.

Rydym wedi datblygu systemau a gweithdrefnau priodol i gefnogi'r gweithgarwch allweddol hwn. Mae ein prosesau dyrannu grantiau a monitro yn cael eu hadolygu yn flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol i sicrhau eu bod yn parhau yn addas i'w pwrpas. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau dyrannu grantiau bob blwyddyn. Mae pob argymhelliad y mae ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn eu gwneud yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn da bryd.

Penderfyna'r Cyngor a ddylid rhoi statws sefydliad sy'n cael arian refeniw i sefydliad, yn seiliedig ar gyngor swyddogion ac asesiadau trylwyr.

Mae adroddiadau rheolaidd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y Cyngor sy'n dangos yr asesiad perygl ar gyfer pob un o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw blynyddol. Mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan adroddiad sy'n disgrifio'r themâu allweddol a ddaeth i'r fei yn ystod y gyfres o gyfarfodydd adolygu blynyddol sy'n cael eu cynnal gyda phob sefydliad sy'n cael arian refeniw.

Fel y nodwyd uchod, pan fo galw, cymerwn agwedd ragweithiol o ran sefydliadau a gaiff anawsterau a buddsoddi amser ac egni i'w cynorthwyo i ddatrys eu problemau.

Cyhoeddwn ganllawiau ar gyfer pob un o'n rhaglenni grantiau o arian y Loteri. Gallwch ddod o hyd i fanylion ar ein gwefan. Mae gennym brosesau ymgeisio agored a thryloyw i bob un o'n rhaglenni ariannu grantiau ac mae gennym brosesau asesu,

penderfynu a monitro cadarn ar gyfer yr holl arian yr ydym yn ei roi i artistiaid a sefydliadau celfyddydol.

Mae ein ffordd o fynd ati wedi ei seilio ar fentro o ran ein hasesiad o geisiadau a monitro'r grantiau a roddwn. Rydym yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chasglu oddi wrth y rhai sy'n derbyn grantiau gennym yn rhan o'n gweithdrefnau monitro i sicrhau bod y canlyniadau datganedig yr ydym wedi eu rhagweld wrth ddyrannu'r arian yn cael eu cyflawni yn y pen draw.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymryd twyll, llygredd a chamweinyddu o ddifrif ac mae gennym bolisiâu i atal y rhain ac i ddelio â hwy os codant, gan gynnwys polisiâu Chwythu'r Chwiban a Gwrth-Dwyll.

Gallwch dod o hyd i restr lawn o'r grantiau a gynnigiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol yn yr atodiad i'r Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol hyn.

### Ein ffordd o reoli perygl:

A ninnau'n gorff a ariennir yn gyhoeddus, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried perygl yn ofalus yn unol â'n cyfrifoldebau a natur y sector yr ydym yn ei wasanaethu.

Mae'n cydnabod y rheidrwydd i unrhyw strategaeth ddatblygu uchelgeisiol dderbyn y perygl o fethu â chyflawni polisiâu, nodau ac amcanion. Ein bwriad yw hyrwyddo diwylliant mwy arloesol a llai ofnus o berygl er mwyn inni allu cefnogi artistiaid, sefydliadau a phrosiectau i gyflawni ein hamcanion.

Mae angen i ni gadw'r ddysgl yn wastad rhwng ein dyletswydd i arloesi a'r angen cynyddol i fwyafu buddion ein buddsoddiad ar gyfer y sector ac ar gyfer y cyhoedd. Mae angen i ni fentro'n bwylllog a phriodol ar brydiau a chydabod y byddwn weithiau'n methu wrth wneud hyn. Serch hynny, ni fyddwn yn ymddwyn yn fyrbwyll nac yn gwario yn afreolus arian y cyhoedd neu beryglu ein henw da am fod yn ddarbodus gyda'r arian hwnnw.

Mae gennym system o reolaeth fewnol sydd wedi cael ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r

perygion a fyddai'n gallu ein hatal rhag cyflawni polisiâu, nodau ac amcanion Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r system yn gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd perygion yn ymwireddu, yn ystyried yr effaith a fydd yn digwydd pe daw'r perygion yn wir ac yn ceisio eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd ein system o reolaeth fewnol dim ond yn gallu rheoli perygl hyd lefel resymol a phriodol ac felly dim ond lefel resymol o sicrwydd y gallai ei darparu ac nid y lefel eithaf o sicrwydd o effeithiolrwydd.

Rydym bob tro yn ceisio gwella ein systemau o reolaeth fewnol i sicrhau eu bod o gymorth inni wrth gyflawni ein targedau ariannol a strategol. Menter allweddol a ddaeth i ffrwythlondeb yn ystod y flwyddyn oedd datblygu a gweithredu Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol sy'n cael ei oruchwylio gan ein Pwyllgor Archwilio. Mae'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio i nodi cadernid y rheolaethau ategol a'r prosesau sicrwydd sy'n cael eu defnyddio i nodi a rheoli perygion allweddol strategol. Tynnir sylw at unrhyw agweddau sydd angen eu cryfhau i'n galluogi i gymryd y cam gweithredu priodol.

### **Perygion allweddol a wyneba'r Cyngor:**

Ond yn y dyfodol mae nifer o berygion allweddol sy'n ein hwynebu yn y flwyddyn a ddaw neu wedyn.

Y perygl mwyaf arwyddocaol yn y dyfodol agos iawn yw effaith y toriadau yn y gwariant cyhoeddus a'r effaith bosibl y byddai hyn yn ei chael ar y sector celfyddydol ehangach. Mae ein cyllidebau ein hunain dan bwysau. Roedd yn rhaid inni leihau lefel yr arian refeniw blynyddol i'n portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw yn ogystal â dod o hyd i arbedion pellach yn ein costau rhedeg ein hunain. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd gymryd penderfyniadau anodd iawn ac mae tystiolaeth gynyddol y bydd y lefel o gefnogaeth y maent wedi'i rhoi i sector y celfyddydau yn y gorffennol yn mynd i ddiodeff yn y dyfodol. Byddai hyn yn gallu cael goblygiadau difrifol iawn ar gyfer seilwaith y celfyddydau ledled Cymru. Rydym yn monitro'r sefyllfa'n agos iawn a, lle y gallwn, byddwn yn mynd i'r afael ag anawsterau lle mai ni yw un o'r arianwyr allweddol, neu lle y gallwn

gael dylanwad uniongyrchol.

Mae gennym dau brosiect cyfalaf mawr sy'n derbyn arian y Loteri ar waith ar hyn o bryd. Cafodd y ddau brosiect, am wahanol resymau, anawsterau yn ystod y flwyddyn, ac mae'r ddau'n cael eu monitro'n agos iawn gyda chymorth arbenigwyr annibynnol sy'n defnyddio ein gweithdrefnau monitro trylwyr ein hunain. Mae pob un o'r prosiectau cyfalaf eraill yr ydym yn ymwneud â hwy hefyd yn cael eu monitro'n agos.

Mae'r cynnydd sydyn yn ein hincwm o'r Loteri yn y blynyddoedd diweddar wedi cyflwyno her inni o ran cynyddu lefel ein hymrwymadau gyda chynnydd canlynol yn lefel ein harian yn y banc sydd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol. Rydym wedi dechrau mynd i'r afael â hyn ond erbyn hyn rydym yn dechrau profi lleihad yn lefelau ein hincwm. Ar hyn o bryd mae modd ymdopi ond, os bydd y tueddiad hwn ar i lawr yn parhau, bydd yn rhaid inni ailasesu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer dyrannu grantiau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rydym yn monitro'r sefyllfa'n agos iawn.

Yn gynharach yn y flwyddyn cafodd ein Cadeirydd ei wahodd i arwain adolygiad i faes addysg gelfyddydol yn ein hysgolion yng Nghymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru brif argymhellion yr adroddiad, *Y Celfyddydau ac Addysg yn Ysgolion Cymru*, ym mis Mawrth 2014 ac rydym yn edrych ymlaen at chwarae rhan arwyddocaol wrth weithredu'r argymhellion hynny. Mae maint y newidiadau arfaethedig yn uchelgeisiol ac mae'n debygol y bydd maint a chymhlethdod y rhaglen angenrheidiol yn golygu ein bod yn ymhel â nifer o ddatblygiadau mawr iawn. Rydym yn croesawu'r cyfle ond rydym hefyd yn cydnabod yr angen i reoli'n ofalus y llu o berygion a fydd ynghlwm wrth y fath fenter.

Yn nes ymlaen eleni rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei *Bil Cenedlaethau'r Dyfodol* a'i hymrwymiad i sefydlu dyletswydd gynaliadwyedd. Rydym wrthi'n gwneud gwaith rhagbaratoi i sicrhau y byddwn yn gallu cyflawni'n llwyr ein dyletswyddau pan ddaw'r dyletswyddau hyn i rym ym mis Ebrill 2015.

## Diogelwch data:

Rydym yn dal llawer iawn o ddata ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data o ddifrif. Sicrha ein systemau a rheolaethau TGCh fod rheolaeth lem ar y data. Aseswn y trefniadau hyn yn rheolaidd gan gymryd camau i'w gwneud yn fwy cadarn. Parhawn i'w monitro'n ofalus.

Nid oedd yr adolygiad uchel ei lefel o reolaethau TGCh a wnaeth ein harchwilwyr allanol na'r rhaglen o adolygiadau archwilio mewnol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn, wedi tynnu sylw at unrhyw bryderon yn y maes hwn. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y flwyddyn.

## Cyfarwyddiadau'r Gweinidogion:

A ninnau'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol sy'n cynnwys cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd unrhyw gyfarwyddiadau inni'r llynedd ac ni chawsom unrhyw Gyfarwyddiadau gan y Gweinidogion o ran ein gweithgareddau Loteri.

## Materion rheolaeth a nodwyd y llynedd:

Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Deloitte sy'n darparu ein gwasanaeth archwilio mewnol dan arweiniad y Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n gweithio i Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno ar raglen o adolygiadau sy'n ymestyn dros gyfnod penodiad ein harchwilwyr mewnol. Mae blaenoriaethau ar gyfer pob blwyddyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac maent yn cynnwys archwiliadau o weithgareddau busnes allweddol yn ogystal â chraffu ar feysydd allweddol o berygl posibl i'r sefydliad.

Ymgwymerwyd â deg adolygiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. O'r rhain roedd un yn adolygiad dilynol blynyddol o'r argymhellion blaenorol ac roedd tri yn adolygiadau ymgynghorol. Canlyniad y chwe adolygiad a oedd yn weddill oedd naill ai lefel sylweddol neu lefel lawn o sicrwydd. Mae pob argymhelliad sy'n cael ei godi gan yr archwiliad

mewnol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n monitro pob un i sicrhau bod cam gweithredu yn digwydd yn ei gylch a hynny'n brydlon.

Casgliad yr archwilwyr mewnol oedd bod eu hasesiad cyffredinol o'r adolygiad o Lywodraethu Corfforaethol wedi darparu sicrwydd llawn ac, o ran rheoli perygl, sicrwydd sylweddol.

Dyma farn yr archwilwyr mewnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor yn eu hadroddiad blynyddol:

*"Ar sail y gwaith yr ydym wedi'i wneud dros y flwyddyn, rydym yn gallu casglu bod system rheoli mewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn y bôn yn gadarn a dylai ddarparu sicrwydd sylweddol o ran cyflawni amcanion Cyngor Celfyddydau Cymru."*

Mae canfyddiadau archwiliadau blynyddol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadrodd mewn Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol a Llythyr Rheoli sy'n mynd at y Cyngor. Mae copi'n cael ei ddarparu i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried canfyddiadau ac yn eu monitro i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn eu cylch a hynny'n brydlon.

## Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol:

Yn fy marn, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu.

*Nicholas Capaldi*

Nicholas Capaldi, Swyddog Cyfrifyddu  
11 Gorffennaf 2014

Cefnogwyd ar ran y Cyngor:

*Dai Smith*

Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd  
11 Gorffennaf 2014

## Strwythur, llywodraethu a rheoli

### *Cyfnod sefydlu a hyfforddi'r aelodau*

Cynhelir rhaglen sefydlu i aelodau newydd i'w briffio am eu rhwymedigaethau cyfreithiol dan y Siarter Frenhinol a chyfraith elusen, Cod Ymarfer Gorau, prosesau'r Pwyllgorau a phenderfynu, cynlluniau strategol a materion ariannu. Yn ystod y diwrnod cânt gyflwyniadau gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau. Caiff aelodau hefyd gyfle i gwrdd â gweithwyr allweddol. Yn ogystal â'r Siarter Frenhinol a'r Cod Ymarfer Gorau, caiff aelodau gopïau o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon diweddaraf, y gyllideb waith bresennol a chyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau, 'The Essential Trustee' a'r 'Independence of Charities from the State'. Trefnir seminarau a hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen i lywio'r broses o lunio strategaethau a pholisïau.

Bydd aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am faterion megis penderfynu ar bolisïau, y cynlluniau corfforaethol a gweithredol, pennu'r gyllideb flynyddol, dyrannu grantiau blynyddol i sefydliadau sy'n cael arian refeniw a newidiadau mawrion i delerau ac amodau gwasanaeth y staff.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau cyffredinol a dosbarthu'r loteri. Dan Gyfarwyddiadau Cyfrifon ar wahân mae'r driniaeth gyfrifyddu a gaiff grantiau cyffredinol a grantiau'r loteri yn wahanol iawn. Felly, gan ystyried paragraff 359 o Ddatganiad Arfer a Argymhellir gan y Comisiwn Elusennau (a ddiwygiwyd yn 2005), ym marn yr ymddiriedolwyr mae'n amhriodol paratoi cyfrif cyfunol gan na roddai ddarlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddia'r Cyngor ei adnoddau.

## Amcanion, gweithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad er budd y cyhoedd

### Amcanion siartredig y Cyngor yw:

- (a) datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer y celfyddydau;
- (b) gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd;
- (c) cynghori Llywodraeth Cymru, Adrannau ein Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a chyrrff eraill a chydweithredu â hwy ar unrhyw faterion, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion blaenorol; a
- (ch) cyflawni ein hamcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Prif ddiben y Cyngor yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru er budd holl bobl y wlad. Y brif ffordd y cais y Cyngor gyflawni'r diben hwn yw drwy lunio strategaethau celfyddydol, ymchwil, a rhoi grantiau rheolaidd ac untro i sefydliadau ac unigolion mewn cyd-destun strategol a datblygiadol. Cefnogir y prosesau rhoi grantiau gan fonitro ac asesu i sicrhau y defnyddir arian cyhoeddus yn effeithiol at y dibenion a nodwyd. Rheola'r Cyngor hefyd ystod o weithgareddau a gwasanaethau lle nad yw grantiau'n rhan ohonynt, yn aml mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill.

### *Prif amcanion y flwyddyn*

Mae blaenoriaethau strategol y Cyngor ar gyfer 2013/14 yn y tabl isod yn ôl themâu ein cynllun corfforaethol, ochr yn ochr â'r cyflawniadau allweddol a wnaed o ran pob targed gweithredol yn ystod y flwyddyn:



## Cefnogi'r gorau o ran creu celfyddyd wych –

### Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Rydym yn llawn angerdd dros y celfyddydau. Rydym yn uchelgeisiol o ran llwyddo. Ar ei orau – a'r gorau sy'n mynd â'n bryd - mae gan y celfyddydau'r grym i gyffroi, ysbrydoli, cyffwrdd a herio. Rydym am lunio amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau i greu eu gwaith gorau. Rydym am i bobl Cymru fwynhau a chymryd rhan yn y gorau sydd gennym. Daw'r gorau pan drewir y tant cywir a chysyllta'r celfyddydau â phobl. Dyna'n diffiniad o gelfyddyd wych. Creu celfyddyd a'i rhannu a chymryd rhan ynddi wrth berfformio, yn y gymuned, o'r dudalen, lle bynnag, yn ein bywyd - dyma'r adeg y llwydda'r celfyddydau i'n hysbrydoli'n unigol ac yn dorfol.

Wrth gwrs, ni allwn warantu y cynhyrcha pob artist a sefydliad a ariannwn gelfyddyd wych bob tro. Ond gallwn greu amgylchedd lle mae gwaith uchelgeisiol, cyffrous ac ysbrydoledig yn debycach o godi.

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
1. Cynhyrchu strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer datblygu'r celfyddydau ( <i>Creadigrwydd a'r Celfyddydau</i> )	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghori ar gynigion drafft yn chwarter 1</li> <li>• Cyhoeddi strategaeth newydd yn ystod chwarter 2</li> <li>• Cam cyntaf ei gweithredu yn chwarteri 3-4</li> </ul>	<p>Cymeradwyodd y Cyngor y drafft diweddaraf i ymgynghori arno ym mis Rhagfyr.</p> <p>Parhaodd yr ymgynghoriad tan 30 Ebrill 2014.</p>
2. Cyflawni prosiect Cymru yn Fenis gyda'r artist Bedwyr Williams	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhagori o ran nifer yr ymwelwyr ar ffigyrau 2011 erbyn diwedd chwarter 3</li> <li>• Rhagori sylw yn y cyfryngau ar y blynyddoedd blaenorol</li> <li>• Cyfleoedd datblygu penodol nodadwy i sector celfyddydau gweledol Cymru</li> </ul>	<p>Caeodd yr Arddangosfa ar 23 Tachwedd 2013 gyda ffigyrau mynychu terfynol o tua 23,000. Denodd pafiliwn Cymru bron 30,000 o ymwelwyr yn 2011.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad gwerthuso llawn ar y prosiect gerbron y Cyngor ym mis Chwefror gyda'r ffordd strategol arfaethedig o fynd ati o ran Cymru yn Fenis yn 2015. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan y Cyngor a ddyrannodd gyllideb iddynt.</p>
3. Cyfrannu at gynllunio, datblygu a darparu'n llwyddiannus Wyl Dylan Thomas yn Gant yn ystod 2014	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynychu cyfarfodydd y grŵp llywio</li> <li>• Rhaglen gyhoeddedig o ddigwyddiadau erbyn chwarter 2</li> </ul>	<p>Mae prospectws wedi'i lunio ac mae rhaglen weithgarwch hefyd wedi'i lansio ac mae ar waith.</p> <p>Byddwn yn arwain wrth gydlynu cyfleoedd ym maes cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau celfyddydol drwy gydol 2014 ac yn parhau i fonitro'r prosiectau sy'n cael eu hariannu a'u cyfraniadau a lwyfennir i'r Wyl drwy gydol y flwyddyn.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>4. Cefnogi datblygiad ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol a'u hymgysylltiad â'n gwaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu cymuned ar-lein i Ymgynghorwyr Cenedlaethol gan gynnwys cylchlythyr chwe misol</li> <li>• Dau weithdy neu ddau ddiwyddiad briffio yn ystod 2013/14</li> </ul>	<p>Roedd grwpiau trafod wedi'u cynnal sy'n porthi drafftio'r strategaeth: <i>Ysbrydoli: Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau</i>.</p> <p>Yn ystod 2013/14 nid oeddem yn medru symud ymlaen gyda darparu hygyrchedd i Hwb (sef y fewnrwyd) i'n Hymgynghorwyr Cenedlaethol. Bydd yr ystyriaeth hon yn cael ei gwneud yn ffactor yn y rhaglen waith ddilynol fel y datblygir Hwb yn ased.</p>
<p>5. Sicrhau monitro safon ein sefydliadau sy'n cael arian refeniw ledled Cymru</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dau adroddiad monitro ansawdd gan Ymgynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer pob sefydliad sy'n cael arian refeniw</li> <li>• Lleiafswm o ddau adroddiad monitro ansawdd gan staff Cyngor Celfyddydau Cymru i bob sefydliad sy'n cael arian refeniw</li> <li>• Adroddiad trosolwg gan swyddog i bob sefydliad sy'n cael arian refeniw</li> <li>• Rhagor o ymgyfranogi ym menter yr adolygiadau cyflym</li> </ul>	<p>Mae gwaith ar y gweill o ran ystyried yr argymhellion sydd yn yr adroddiad ymgynghorol gan ein harchwilwyr mewnol ac sy'n cael eu cyflwyno ar ddiwedd 2013/14.</p> <p>Mae gwerthusiadau wedi cael eu comisiynu oddi wrth Ymgynghorwyr Cenedlaethol.</p> <p>Ar ddiwedd y flwyddyn roeddem wedi llenwi 152 o Werthusiadau Ansawdd a oedd yn cyfateb i 53% o'n targed blynyddol o ran monitro ansawdd. Roedd adroddiadau'r swyddogion yn eithaf pell o gyrraedd ein targed. Bydd yn rhaid inni ailwampio'n drylwyr Gwerthuso Ansawdd i gywiro'r sefyllfa hon yn 2014/15.</p>
<p>6. Cyflawni blwyddyn lawn o raglen grantiau i unigolion a sefydliadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweinyddu prosesau rheoli grantiau</li> <li>• Darparu rhaglen Camau Creadigol</li> <li>• Darparu grantiau Cymru Greadigol a sgysiau Cymru Greadigol</li> </ul>	<p>Roeddem wedi comisiynu gwerthusiad allanol o effeithiolrwydd ein canllawiau a byddem yn ystyried adolygu'r holl broses grantiau a chanllawiau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu Creadigrwydd a'r Celfyddydau ac o bosibl yn ymgorffori lleihad yn nifer y rhaglenni ariannu.</p> <p>Rydym yn parhau i fwrw ymlaen gyda'r gwaith ar gam nesaf Camau Creadigol ac rydym yn dal i ddyrannu grantiau gyda dau brosiect mawr sy'n cyrraedd cam arwyddocaol o ddatblygiad yn y chwarter diwethaf.</p> <p>Roedd Trafodaethau Creadigol, gyda seremoni dyrannu grantiau, wedi cael eu cynnal ar gyfer grantiau Cymru Greadigol ym mis Chwefror. Croesawyd y digwyddiad gan y mynychwyr.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>7. Darparu rhaglen o brosiectau a gwasanaethau sy'n helpu artistiaid a sefydliadau celfyddydol i fanteisio ar bosibiliadau rhyngwladol eu gwaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu rhaglen ddilynol i Greu 2013</li> <li>• Blwyddyn 3 o bartneriaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / The British Council a negodi'r cam nesaf o gydweithio</li> <li>• Arwain ar WOMEX 13</li> <li>• Darparu prosiect twristiaeth cerddoriaeth ddigidol</li> <li>• Ymgyfranogi yn rhwydweithiau a datblygiadau prosiect y dyfodol yn Ewrop</li> <li>• Ymgysylltu â datblygu Ewrop Greadigol a meysydd eraill yn y dyfodol o arian Ewrop</li> <li>• Defnyddio Fforwm Celfyddydol Ewropeaidd Cymru i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i sefydliadau sydd am gael Arian Ewropeaidd</li> <li>• Gwaith ar arddangos (e.e. Caeredin, SxSW)</li> <li>• Gwaith strategol gyda Llywodraeth Cymru mewn gwledydd sy'n flaenoriaeth</li> <li>• Darparu arian drwy'r Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol</li> </ul>	<p>Rydym yn parhau i gyflawni ar draws ystod eang o weithgarwch rhyngwladol ac mae cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus yn cael eu trafod yn barhaus gyda thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i sicrhau'r sylw mwyaf i'r gwaith.</p> <p>Mae strategaeth pum mlynedd nesaf Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cael ei llunio yn unol â <i>Chreadigrwydd a'r Celfyddydau</i>. Mae cytundeb partneriaeth newydd gyda The British Council yn y broses o ddigwydd a bydd pawb yn cytuno arno yn ystod 2014/15.</p> <p>Byddwn yn gweithio gydag Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru i ddarganfod yr ateb gorau i ddarparu rhaglen Ariannu Ewrop Greadigol yng Nghymru. Rydym wedi cytuno i ystyried seconddiad yn ystod 2014/15.</p> <p>Mae 85 artist wedi cael eu cefnogi hyd yn hyn drwy Gronfa'r Cyfleoedd Rhyngwladol.</p> <p>Cynhaliwyd WOMEX 13 ym mis Hydref ac roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Derbyniodd y Cyngor y newyddion am y cyflawniadau pennawd ym mis Rhagfyr. Mae'r targedau ar gyfer y digwyddiad naill ai wedi'u cyflawni neu rydym wedi cyflawni y tu hwnt i'r targedau. Am mai'r prif reswm dros ymwneud â'r digwyddiad oedd am ei bosibiliadau i ddarparu gwaddol, mae'r fîm erbyn hyn yn ymwneud â gwerthuso a diweddu'r prosiect a fydd yn estyn hyd at y flwyddyn ariannol newydd.</p>
<p>8. Defnyddio ein cysylltiadau â'r cyfryngau i hyrwyddo celfyddydau Cymru</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu lefel y sylw i'r celfyddydau yn yr holl gyfryngau</li> </ul>	<p>Mae'r strategaeth gyfathrebu wedi'i chymeradwyo gan yr Uwch Tîm Rheoli. Mae cyfleoedd cyfryngol yn cael eu harchwilio o hyd. Mae cyfarfodydd misol â chysylltiadau yn y cyfryngau'n aros yn werthfawr.</p>
<p>9. Cynnal presenoldeb effeithiol mewn digwyddiadau allanol gan hyrwyddo a chefnogi</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Presenoldeb llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd a Gŵyl y Gelli</li> </ul>	<p>Barnwyd bod y presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn llwyddiant. Ymwelodd mwy â'r Lle Celf nag yn y blynyddoedd a fu.</p> <p>Digwyddodd WOMEX 13 ym mis Hydref ac roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
celfyddydau Cymru		Cyflwynwyd adroddiad gwerthuso llawn i'r Cyngor ym mis Mai 2014.
<b>Annog rhagor o bobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt –</b>		
<p><b>Sut olwg a fydd ar lwyddiant?</b></p> <p>Ar hyn o bryd mae lefelau uchel o fynychu celfyddydau Cymru ac ymgyfranogi ohonynt. Ond wrth i incwm pobl leihau, daw ffigurau mynychu ac ymgyfranogi dan fwy o bwysau. Ond nid yw'n fater yn unig o amddiffyn a chadw'r hyn sy'n bodoli eisoes. Hoffem i'r celfyddydau a ariannwn gyrraedd croestoriad ehangach o bobl Cymru – pobl a gafodd yn y gorffennol anhawster i fynychu'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.</p>		
Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
10. Cydweithio â Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion adolygiad y Celfyddydau ac Addysg	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytunwyd ar gynllun gweithredu</li> <li>• Cyhoeddi canfyddiadau o ymarfer mapio'r sefydliadau sy'n cael arian referniw erbyn chwarter 2</li> <li>• Llunio a chynhyrchu adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru</li> </ul>	Cafwyd ymateb Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn pob un o argymhellion yr adroddiad gan nodi arian i'w gweithredu. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynlluniau o ran gweithredu'r argymhellion.
11. Mynd i'r afael ag argymhellion ymgyfranogi o'r celfyddydau gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldebau a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llunio ymateb strategol i'r Pwyllgor erbyn chwarter 1 gan adrodd am ein cynnydd</li> <li>• Cyhoeddi gwybodaeth am ffynonellau ariannu amgen a darparu hyfforddiant arnynt</li> <li>• Datblygu strategaeth i gynyddu lefelau ariannu gan fusnesau</li> <li>• Llunio rhaglen ymchwil weithredol i gynyddu gweithgarwch ymgyfranogol mewn partneriaeth â Hwb Cymunedau'n Gyntaf</li> <li>• Peilota modelau busnes newydd i hyrwyddo'r celfyddydau cymunedol</li> </ul>	<p>Cytunwyd ar gynllun gweithredu. Mae Creu Cymunedau Cyfoes yn rhaglen beilot a fydd yn cynnwys ystyried modelau newydd ar gyfer gwaith sy'n canolbwyntio ar y gymuned.</p> <p>Mae gwaith yn mynd yn ei flaen o ran modelau busnes newydd ar gyfer sector y celfyddydau'n eang ond nid ydym yn rhagweld rhoi cynnig ar fodelau newydd eleni.</p> <p>Rydym yn gweithio'n agos gyda Chywaith Cymru ac roeddem wedi cefnogi digwyddiad rhwydweithio a lledaenu gwybodaeth ledled Cymru a oedd yn llwyddiannus iawn. Mae Sefydliad Paul Hamlyn wedi cytuno i ddarparu arian pellach ac rydym ar hyn o bryd yn trafod datblygu ein partneriaeth.</p> <p>Nid aeth y rhaglen ymchwil weithredol arfaethedig yn ei blaen.</p> <p>Yn sgîl trafodaethau gyda Chymunedau'n Gyntaf, y canolbwynt a gytunwyd ar gyfer y gwaith eleni yw'r celfyddydau a phobl ifainc.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
12. Gweithredu ein strategaethau i Greawdwyr Ifainc ac o ran Tlodi Plant	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoi cynlluniau gweithredu ar waith</li> <li>Adrodd cynnydd ar sail chwarterol</li> </ul>	Mae ymgyrch y celfyddydau i deuluoedd wedi gwneud cynnydd da yn unol â'r rhaglen. Mae'r cam nesaf yng ngwaith yr Ŵyl wedi cychwyn.
13. Gweithredu ein cynllun cydraddoldeb strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer 2013/14 erbyn chwarter 1</li> <li>Adrodd cynnydd ar sail chwarterol</li> <li>Llenwi / diweddarau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb fel sy'n briodol</li> </ul>	<p>Roeddem wedi cyflawni pedwar o'r chwe maes allweddol o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2013/14.</p> <p>Llwyddasom i wneud rhywfaint o gynnydd yn ôl yr amcanion dan Hyfforddiant Mewnol a Phartneriaethau ond ni lwyddasom i gyflawni'n llwyr bob cam gweithredu yn y meysydd hyn. Bydd y gwaith ar y rhain yn parhau yn y flwyddyn 2014/15.</p> <p>Mae Diverse Cymru yn agos at orffen eu gwaith ar ddatblygu'r canllawiau Cydraddoldebau / pecyn gwybodaeth ac rydym wedi cytuno ar raglen o hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff Cyngor Celfyddydau Cymru.</p>
14. Hyrwyddo ein Cynllun Iaith Gymraeg drwy weithredu'r 15 targed allweddol yn ein Cynllun Gweithredu y Gymraeg ar gyfer 2013/14	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013/14 erbyn chwarter 1</li> <li>Adrodd cynnydd ar sail chwarterol</li> </ul>	<p>Cafodd Cynllun Gweithredu 2013/14 ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2013 ac mae trefniadau ar waith drwy gydol y flwyddyn i'w fonitro'n chwarterol ac adrodd am ei gynnydd i Grŵp Monitro'r Gymraeg a gerbron y Cyngor.</p> <p>Roeddem wedi cyflawni ein camau gweithredu yn ôl pob un o'r tri maes strategol o'r cynllun.</p> <p>Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cymeradwyo ein Hadroddiad Blynyddol am y Gymraeg 2012/13.</p>
15. Gweithio gyda'n portffolio o sefydliadau cyflwyno (lleoliadau ac orielau) i gynyddu ac amrywio eu cynulleidfaoedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleiafswm o 4 prosiect ymchwil weithredol yn 2013/14</li> <li>Datblygu erbyn chwarter 4 gynllun tocynnau i bobl anabl ym mhob un o leoliadau cyflwyno ein sefydliadau sy'n cael arian refeniw</li> <li>Treialu fframwaith newydd yn ystod 2013/14 i werthuso sut mae</li> </ul>	<p>Roeddem wedi cymeradwyo cynnig ail gam oddi wrth y Red House ar gyfer prosiect ym Merthyr Tudful yn chwarter 3 ac, yn chwarter 4, cynnig ail gam ar gyfer Llantarnam Grange.</p> <p>Roeddem wedi penodi Creu Cymru i ymgymryd ag ail gam y cynllun Tocynnau i Bobl Anabl a dechreuwyd ar y gwaith yn chwarter 4.</p> <p>Gorffennwyd yr Ymchwil Lles gyda lleoliadau a chafodd adroddiad drafft ei rannu â Chyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
	<p>mynychu'r celfyddydau yn effeithio ar les.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu lefelau ymgysylltu ac ymgyfranogi ar draws ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian referniw</li> </ul>	<p>disgwyl cael adroddiad terfynol ym mis Mai 2014.</p> <p>Mae ffigyrau ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn yn dangos bod y sefydliadau sy'n cael arian referniw wedi cynnal cyfanswm o 9,090 o ddigwyddiadau celfyddydol yn ystod y cyfnod hwnnw o chwe mis a gynhyrchodd fynychiadau o 1.82 miliwn. Cafodd 38,429 o sesiynau celfyddydol ymgyfranogol eu cynnal gyda 554,612 o fynychiadau i'r gweithdai hyn. Bydd y ffigyrau am y chwe mis olaf yn cael eu casglu ym mis Mai 2014 a bydd crynodeb blynyddol yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.</p>
<p>16. Cefnogi dulliau o ymgysylltu â phobl ifainc, anodd eu cyrraedd drwy gyflwyno rhaglenni <i>Sblash a Chyrraedd y Nod</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu cynlluniau ariannu dilynol newydd</li> <li>Cefnogi 500 person ifanc</li> <li>Cefnogi 20 prosiect ledled Cymru</li> <li>Datblygu prosiect tlodi plant mewn partneriaeth â chorff diwylliannol arall</li> <li>Nifer y bobl ifanc sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth</li> <li>Nodi cyfleoedd am ragor o arian Ewropeaidd</li> </ul>	<p>Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod chwarter 3 gyda chais llwyddiannus i Gymunedau'n Gyntaf am arian partneriaeth ar gyfer prosiect peilot cyfamserol.</p> <p>Cawsom 27 o gynigion am brosiectau gan gynnig arian i 14 ac roedd pob un o'r rheiny ar waith cyn diwedd chwarter 4.</p> <p>Nid ydym wedi bwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu prosiect partneriaeth gyda chorff diwylliannol arall.</p> <p>Rydym wrthi'n trafod gyda phartneriaid posibl gais ar gyfer arian Ewropeaidd i adeiladu ar y gwaith a gafodd ei ddatblygu drwy Sbardun.</p>
<p>17. Ehangu'r rhaglen gweithgarwch, <i>Datblygu Talent</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lledaenu menter y celfyddydau gweledol, <i>Criw Celf</i>, erbyn chwarter 2 ar draws yr awdurdodau lleol yn y De-ddwyrain a Chanol De Cymru</li> <li>Cyflawni targedau Celfyddydau Ieuentid Cymru erbyn chwarter 4</li> </ul>	<p>Mae <i>Criw Celf</i> wedi'i gynnal yn llwyddiannus yn y De-ddwyrain a Chanol De Cymru.</p> <p>Bydd gwerthusiad yn cael ei gomisiynu yn y flwyddyn ariannol newydd.</p>
<p>18. Hyrwyddo gweithgarwch teithio o safon mewn cymunedau ledled Cymru, yn enwedig drwy</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu drwy ein gwasanaeth <i>Noson Allan</i> 550 digwyddiad, 150 o'r rhain mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a 12 yn ddigwyddiadau</li> </ul>	<p>Yn ystod 2013/14 rydym wedi cynnal cyfanswm o 532 o ddigwyddiadau Noson Allan yr oedd 114 (21.4%) wedi'u cynnal mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a 141 (26.5%) wedi'u cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
waith <i>Noson Allan</i> sy'n un o wasanaethau Cyngor Celfyddydau Cymru	Hyrwyddwyr Ifainc <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu mentrau i gynyddu argaeledd gweithgarwch sy'n deulugyfeillgar</li> </ul>	Cynhaliwyd 28 o ddigwyddiadau i Hyrwyddwyr Ifainc yr oedd chwech wedi'u cynnal mewn partneriaeth â Heddlu Gwent.  Mae ychydig o leihad yn y galw cyffredinol am y cynllun oherwydd yn bennaf leihad yn y cydweithio a fu â thimau Cymunedau'n Gyntaf oherwydd eu had-drefnu.  Parheir i ddatblygu'r wefan ond cafwyd oedi oherwydd anawsterau rhaglennu – lansir yn Hydref 2014.  Cynhaliwyd naw taith yr oedd chwech ohonynt yn sioeau teuluol.
19. Cydweithio ag asiantaethau arbenigol (Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru, Diverse Cymru, Stonewall Cymru) i ddarparu cefnogaeth i gyflawni ein hamcanion strategol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth neu ariannu erbyn chwarter 1</li> </ul>	Rydym yn gweithio gyda Diverse Cymru ar ddau brosiect mawr ac rydym wedi comisiynu Celfyddydau Gwirfoddol Cymru i ymgymryd â rhaglen o waith yn 2014/15.

### Ehangu economi'r celfyddydau –

#### Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Rydym am weld sector celfyddydol ariannol hyfyw nad yw'n llwyr ddibynol ar gymorthdaliadau cyhoeddus. Gyda lleihau cymhorthdal cyhoeddus mewn termau real, bydd dibyniaeth o'r fath ond yn llesteirio arloesedd, datblygu a chynaliadwyedd.

Defnyddiwn ein holl bwerau eiriolaeth i annog yr ystod fwyaf bosibl o asiantaethau sector cyhoeddus a phreifat i fuddsoddi yn y celfyddydau. Ond credwn y bydd llwyddiant yn dibynnu'n helaeth ar y ffordd y gall artistiaid a sefydliadau celfyddydol ddatblygu eu cynhwysedd busnes eu hunain a manteisio'n llawn ar eu gwerth artistig.

Bydd yn rhaid inni hefyd annog cynaliadwyedd yn ogystal â thwf. O ran ysbryd ein hoes, mynd yn groes i'r graen mae ffyrdd o weithio sy'n gwastraffu adnoddau yn lle eu gwella a'u hamddiffyn. Bydd yn rhaid inni fynd i'r afael â galw'r presennol heb niweidio lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y dyfodol.

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>20. Cytuno ar strategaeth tair blynedd newydd am fuddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru yn y celfyddydau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu portffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw</li> <li>• Dyraniadau ariannol newydd i sefydliadau sy'n cael arian refeniw</li> <li>• Sefydlu meysydd a chyllidebau ariannu strategol priodol</li> </ul>	<p>Roedd y Cyngor wedi cytuno ar strategaeth dwy flynedd ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r amserlen fyrrach yn adlewyrchu amserlen ariannu Llywodraeth Cymru a dyddiad etholiadau nesaf y Cynulliad yng Nghymru.</p>
<p>21. Annog ein sefydliadau sy'n cael arian refeniw i fod yn fwy gwydn a chynaliadwy (yn ddiwylliannol, sefydliadol ac ariannol) a darparu gwybodaeth ar berfformiad y portffolio</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer y perfformiadau / arddangosfeydd / digwyddiadau a niferoedd cynulleidfaoedd / ymgyfranogwyr</li> <li>• Dosbarthu gweithgareddau'n ddaearyddol</li> <li>• Cyhoeddi Adroddiadau Cyfarfodydd Adolygu blynyddol sefydliadau sy'n cael arian refeniw am 2011/12 erbyn chwarter 2</li> <li>• Cynnal Cyfarfodydd Adolygu Blynyddol 2013/14 yn ystod chwarter 4</li> <li>• Cyhoeddi adroddiad ar berfformiad y sefydliadau sy'n cael arian refeniw yn ystod chwarter 2</li> <li>• Darparu rhaglen o fentrau datblygu'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw</li> </ul>	<p>Rydym yn parhau i gyflawni yn ôl ein holl dargedau o ran arolwg y sefydliadau sy'n cael arian refeniw a chyhoeddi ein canfyddiadau allweddol.</p> <p>Cyflawnwyd Cyfarfod Adolygu blynyddol y llynedd er inni nodi na ddigwyddodd rhai o'r cyfarfodydd. Mae newidiadau wedi'u gwneud i weithdrefn 2014/15 i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.</p> <p>Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Adolygu Blynyddol ar gyfer 2013/14 drwy gydol misoedd Chwefror a Mawrth a'r dyddiad cau ar gyfer adroddiadau oedd 4 Ebrill.</p> <p>Mae Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol y Sefydliadau sy'n cael arian refeniw wedi cael ei ohirio oherwydd y sefyllfa gyfnewidiol iawn o ran arian yr awdurdodau lleol. Serch hynny, rydym wedi rhyddhau data i'n portffolio o gleientiaid am ffigurau ymgyfranogi a pherfformiad ariannol.</p>
<p>22. Datblygu <i>Creu Cymunedau Cyfoes</i>, cronfa her i fuddsoddi mewn prosiectau adfywio a arweinir gan y celfyddydau i hyrwyddo'r celfyddydau'n gyhoeddus</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddi dogfen bolisi yn ystod chwarter 1</li> <li>• Sefydlu cronfa her fechan i artistiaid unigol sydd am weithio'n gyhoeddus yn chwarter 1</li> <li>• Cynnal lleiafswm o 4 preswylfa gelfyddyd</li> </ul>	<p>Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'i lunio.</p> <p>Rydym wedi tendro a chaffael contract tymor byr i gynhoi adnoddau gwe.</p> <p>Cafwyd 29 o geisiadau i'w hystyried am yr ymchwil a'r cyfnod datblygu. Mae is-grŵp o'r Pwyllgor Cyfalaf wedi cael ei sefydlu i asesu'r ceisiadau. Cafodd deuddeg o brosiectau eu</p>



Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
	<p>gyhoeddus yn ystod 2013/14</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Comisiynu 4 prosiect sydd i fod ar waith erbyn chwarter 4</li> </ul>	<p>dethol i fynd ymlaen i'r ail rownd o asesu. Y dyddiad cau ar gyfer yr ail gyfnod hwn yw mis Gorffennaf 2014.</p> <p>Rydym wedi penodi Rheolwr Rhaglen i gydlynu'r rhaglen gan gynnwys y broses asesu. Mae Rheolwr y Rhaglen hefyd wedi mynd i gyfarfodydd gwthio'r cwch i'r dŵr o ran y prosiectau llwyddiannus a bydd yn cynnig cyngor a chefnogaeth arbenigol iddynt yn y cyfamser.</p> <p>Rydym wedi sôn wrth bedwar arbenigwr (gan gynnwys penseiri ac ymarferwyr) yn y maes am y posibiliad o ymuno â rhestr o'n Hymgynghorwyr Cenedlaethol i gynnig cymorth i'r grŵp penderfynu wrth iddynt ddewis y prosiectau gorau. Mae ceisio dod o hyd i aseswyr a sylwedyddion sydd wedi'u cymhwyso'n briodol ar waith o hyd ond, ar gyfer y cyfnod cyntaf, is-grŵp y Pwyllgor Cyfalaf oedd y grŵp penderfynu a bydd yr un is-grŵp yn cyflwyno argymhellion gerbron y Cyngor ar gyfer yr ail gyfnod.</p>
<p>23. Cyflawni blaenoriaethau cyfalaf y Loteri</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro cynnydd ein dau brif brosiect cyfalaf - Pontio (Bangor) ac Oriol Gelf Glynn Vivian (Abertawe)</li> <li>Adroddiadau misol (a rennir â Llywodraeth Cymru)</li> <li>Sefydlu pob cytundeb cyfreithiol priodol a'u dilyn</li> </ul>	<p>Mae Gweithred Gyfamodi â Phrifysgol Bangor wedi'i therfynoli a'i llofnodi gan bawb.</p> <p>Mae swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd rheolaidd y grŵp llywio. Mae gwahoddiad hefyd i swyddogion fynychu grwpiau llywio prosiectau penodol megis Oriol Myrddin ac Oriol Mission.</p>
<p>24. Cychwyn rhaglen o weithgarwch sy'n annog datblygu cynhwysedd digidol yn y celfyddydau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Digwyddiadau arddangos eiriolaeth/ymarfer gorau</li> <li>Sefydlu Cronfa Ymchwil a Datblygu Digidol gyda NESTA a chefnogi mintai gyntaf y prosiectau erbyn chwarter 1</li> <li>Sefydlu Cronfa Datblygu Cynhyrchwyr Digidol</li> </ul>	<p>Mae deuddeg o gynhyrchwyr digidol wedi cwblhau'r cwrs.</p> <p>Roedd yr ail rownd o'r Gronfa Ddigidol ar gyfer Ymchwil a Datblygiad wedi cau ym mis Ionawr. Cafodd dau brosiect pellach eu cefnogi yn ogystal â'r pedwar a gefnogwyd yn y rownd gychwynol.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>25. Ail-lansio'r <i>Cynllun Casglu</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddi Cynllun Gweithredu</li> <li>• Datblygu gwefan newydd</li> <li>• Ymgyrch yn y cyfryngau i gefnogi ail-lansio yn ystod blwyddyn nodi pen-blwydd yn 30</li> <li>• Yn ail hanner y flwyddyn cynyddu gwerth a nifer y benthyciadau</li> </ul>	<p>Rydym yn aros am y rheoliadau newydd am gredyd ariannol. Mae gwefan newydd ar hyn o bryd wrthi'n cael ei datblygu.</p> <p>Cafodd ymgyrch lwyddiannus i'r wasg ei chynnal am y <i>Cynllun Casglu'n</i> dathlu ei ben-blwydd yn ddeng mlynedd ar hugain ym mis Rhagfyr.</p> <p>Mae cynnydd yn y defnydd wedi'i nodi yn ystod yr ymgyrch a oedd wedi targedu arwerthiannau'r Nadolig.</p> <p>Mae cynllun gweithredu ar waith erbyn hyn i weithredu'r argymhellion o Adroddiad Bond. Mae cynnydd o 5% mewn gwerthiant yn ein targedau ar gyfer 2014.</p>
<p>26. Darparu WOMEX 2013 fel digwyddiad o safon i gyflawni ei potensial fel sbardun i'r sector cerddorol Cymru</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer yr arddangoswyr yn y ffair</li> <li>• Nifer y cynadleddwyr</li> <li>• Nifer y mynychwyr yn y cyngherddau a'r digwyddiadau gyda'r nos</li> <li>• Darparu prosiect twristiaeth cerddoriaeth ddigidol</li> <li>• Darparu rhaglen waddol a fydd yn sbardun i ddatblygu sector Cymru</li> <li>• Darparu rhaglen Gorwelion</li> <li>• Gwerth i'r economi leol</li> <li>• Darparu'r prosiect o fewn y gyllideb a gytunir</li> </ul>	<p>Cynhaliwyd WOMEX 13 ym mis Hydref ac roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Derbyniodd y Cyngor y newyddion am y prif gyflawniadau ym mis Rhagfyr.</p> <p>Mae'r targedau ar gyfer y digwyddiad naill ai wedi'u cyflawni neu rydym wedi rhagori ar ein targedau.</p> <p>Am mai'r prif reswm dros ymwneud â'r digwyddiad oedd am ei bosibiliadau i greu gwaddol, mae'r tîm erbyn hyn yn ymwneud â gwerthuso a diweddu'r prosiect a fydd yn estyn hyd at y flwyddyn ariannol newydd.</p>
<p>27. Darparu'n llwyddiannus ein digwyddiadau corfforaethol (y Gynhadledd Flynyddol, y Symposiwm Marchnata a'r <i>Sgyrsiau Celfyddydol</i>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer y mynychwyr</li> <li>• Boddhad y cynadleddwyr</li> </ul>	<p>Cynhaliwyd cyfres lwyddiannus yn y gwanwyn o'r <i>Sgyrsiau Celf</i>.</p> <p>Roedd ein Cynhadledd Flynyddol, Dyfodol Creadigol, yn llwyddiant gyda 183 o fynychwyr yn nodi mai hon oedd y gynhadledd orau hyd yn hyn. Roedd 83% o'r ymatebwyr i'r arolwg a ddaeth wedyn wedi sgorio'r digwyddiad yn 'dda' hyd at fod yn 'ardderchog'.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
		Cynhelir gwerthusiad ar bob un o'n digwyddiadau a byddwn yn llunio strategaeth gyda ffocws clir ar bob un o'n digwyddiadau yn y dyfodol.
28. Datblygu'r sgiliau arwain entrepreneuriaidd i helpu artistiaid a sefydliadau i ddatblygu ymarfer busnes blaengar, cynaliadwy a gwydn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu, gyda Chelfyddydau a Busnes Cymru, y prosiect MENTORA</li> <li>• Peilota prosiectau Mission, Models, Money</li> <li>• Mentrau cyrisau byrion</li> <li>• Cyflawni 3 modiwl o'n rhaglen datblygu'r sefydliadau sy'n cael arian referniw yn 2013/14 (llywodraethu, cynllunio busnes a hygyrchedd)</li> </ul>	<p>Erbyn hyn mae sefyllfa ariannol y Celfyddydau a Busnes wedi ei hegluro ar gyfer 2014/15 a byddwn yn gweithio gyda'r sefydliad i fwrw ymlaen â'u cynllun busnes newydd.</p> <p>Mae'r rhaglen Mission, Models, Money yn weithredol er nad oedd cymaint o ddefnydd arni ag yr hoffem ei weld. Mae set ddysgu gweithredol wedi dod allan o'r prosiectau y boom yn gweithio gyda hwy ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd.</p> <p>Rydym wedi llofnodi ar gyfer Cymrodoriaeth Clore Cymru ar gyfer 2014/15.</p>
29. Ymgorffori ein partneriaeth newydd â thri maes (cenedlaethol, rhanbarthol ac unigol) gyda llywodraeth leol ledled Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelodaeth o Grŵp Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden Cymru</li> <li>• Cynhyrchu polisi cenedlaethol y celfyddydau a diwylliant yn seiliedig ar gardiau sgorio Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau</li> <li>• Paru Cyfarwyddwr y Cyngor ag ardal awdurdod lleol</li> <li>• Dynodi swyddog arweiniol i bob awdurdod lleol yng Nghymru</li> <li>• Rhaglen o gyfarfodydd rhanbarthol swyddogion AD:UK i ddatblygu'r celfyddydau</li> <li>• Cytuno ar set o ddangosyddion perfformiad i sector celfyddydol a diwylliannol yr awdurdodau lleol</li> </ul>	<p>Mae pob un o'r awdurdodau lleol wedi cytuno i gasglu data eleni yn unol â'r dangosyddion perfformiad allweddol safonol sydd wedi'u negodi.</p> <p>Cytunwyd ar hyn gan ein swyddogion ymchwil, Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Uned Ddata Llywodraeth Cymru ac AD:UK.</p> <p>Mae cyfarwyddwyr wedi cynnal cyfarfodydd mewnol rhanbarthol. Bu hyn yn arbennig o bwysig o ystyried sefyllfa gyllidebol bresennol yr awdurdodau lleol.</p> <p>Bu ein swyddogion yn bresennol mewn cyfarfodydd AD:UK.</p> <p>Rydym wedi trefnu pedwar digwyddiad Sgwrs rhanbarthol ym misoedd Ionawr a Chwefror gan gynnwys sesiynau ar ariannu torfol, dyngarwch a thwristiaeth ddiwylliannol.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu mecanwaith casglu data cenedlaethol integredig ar Ffynnon</li> <li>Cynnal <i>Sgwrs Gelfyddydol</i> ddwywaith y flwyddyn ymhob un o'n 4 rhanbarth o awdurdodau lleol</li> </ul>	
30. Datblygu Partneriaeth Gwerth Cyhoeddus â BBC Cymru ac S4C	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar ddogfennau'r bartneriaeth a'u cyhoeddi</li> <li>Darparu prosiectau partneriaethol (e.e. sgriptio teledu yn y Gymraeg, WOMEX)</li> </ul>	<p>Mae'r Bartneriaeth o ran Gwerth Cyhoeddus gyda BBC Cymru wedi'i llofnodi a'i lansio.</p> <p>Mae'r Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth ag S4C wedi'i chytuno a chaiff ei lansio'n swyddogol yn y lansiad cyfryngol ar gyfer Y Gwyll/Hinterland.</p> <p>Rydym wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r BBC ac S4C ac rydym wedi dechrau datblygu partneriaeth greadigol gyda hwy.</p>
31. Meithrin partneriaethau sy'n cefnogi cyflawni ein blaenoriaethau celfyddydol, datblygu cyfleoedd newydd i artistiaid gomisiynu, datblygu a chyflwyno gwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>Memoranda cytundeb (lle bo'n briodol)</li> <li>Menter <i>Safle Benodol</i> gyda chwmnïau cenedlaethol</li> </ul>	<p>Mae Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth â Cadw, y Ganolfan Dechnoleg Amgen a'r Ymddiriedolaeth Afonydd wedi'i lofnodi.</p> <p>Mae Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi'i gytuno.</p> <p>Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i gynllunio gyda'r cwmnïau cenedlaethol. Mae'r cyfnod ymchwil yn agos at ei derfyn.</p>
32. Cynyddu buddion i'r celfyddydau o Raglen Ewropeaidd 2014-20 gan gynnwys arian strwythurol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytundeb â Llywodraeth Cymru ar feysydd o gydfuddsoddi posibl 2014-20 drwy Gronfeydd Strwythurol ac Ewrop Greadigol e.e. sgiliau digidol</li> </ul>	<p>Mewnbwn parhaus i Ffrwd Waith Darparu a Chydymffurfio Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mynychwyd lansiad y rhaglen newydd ar gyfer 2014 – 2020 gan y Gweinidog dros Gyllid ym mis Tachwedd.</p>

### Gwneud Cyngor Celfyddydau Cymru yn sefydliad cyhoeddus effeithiol ac effeithlon –

#### Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Yn 2012/13 aethom ati i weithredu canlyniadau ein Hadolygiad Sefydliadol. Sefydlwyd strwythur staffio newydd. Ein her yn awr yw creu sefydliad cryf a hyderus i ddarparu gwasanaethau perthnasol a defnyddiol.

Darparwn wasanaethau proffesiynol ar draws ystod o ddisgyblaethau. Gwnawn hyn hefyd mewn ffyrdd sy'n lleihau cost a chydabod ein cyfrifoldeb i ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd.

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>33. Datblygu gallu a sgiliau proffesiynol ein staff a'u lles</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarau a chyhoeddi polisïau adnoddau dynol yn y gwahanol lawlyfrau erbyn chwarter 1</li> <li>• Gorffen llunio cynlluniau gwaith tîm ac unigolion ar gyfer chwarter 1</li> <li>• Polisi Dysgu a Datblygu newydd erbyn chwarter 1</li> <li>• Gweithredu Proses Rheoli Perfformiad / Gwerthusiad 360 gradd newydd erbyn chwarteri 3/4</li> <li>• Cyflwyno rhaglen cynorthwyo'r gweithiwr</li> </ul>	<p>Mae'r broses o adolygu polisïau bron ar ben. Mae nifer bach ohonynt yn aros am gydsyniad yr Undeb.</p> <p>Mae cynlluniau gwaith wedi'u cytuno ac mae sesiynau 1:1 yn mynd ymlaen o hyd.</p> <p>Rydym wedi cychwyn ar raglen Dysgu a Datblygu.</p> <p>Mae'r Uwch Tîm Rheoli wedi ail amserlennu'r system rheoli perfformiad newydd i'w gweithredu yn 2014/15.</p>
<p>34. Gweithredu ein strategaeth TGCh</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae polisïau TGCh wedi'u terfynoli.</li> <li>• Uwchraddio i Windows 7 / Office 2010 erbyn chwarter 1</li> <li>• Sicrhau bod gwefan <i>Noson Allan</i> ar waith erbyn chwarter 1</li> <li>• Cyflwyno <code>expense@work</code></li> <li>• Sefydlu Cronfa Ddata ar gyfer cysylltiadau newydd</li> <li>• Cyflawni camau datblygu nesaf yr arolwg o'r sefydliadau sy'n cael arian referniw</li> <li>• Cyflawni camau datblygu nesaf Hwb</li> <li>• Ymgorffori cynhwysedd y cyfryngau cymdeithasol mewn gwefan well</li> </ul>	<p>Mae terfynoli polisïau wedi'i oedi oherwydd y rheidrwydd i aros am y polisïau Adnoddau Dynol diwygiedig.</p> <p>Uwchraddiwyd i Windows 7 / Office 2010.</p> <p>Mae datblygiad craidd cymhwysiad gwe <i>Noson Allan</i> yn gyflawn ac mae'r prosiect wedi mynd i mewn i'w gyfnod cyntaf, sef profi derbynnyd y defnyddwyr. Mae rhestr gyflawn o anawsterau a phroblemau wedi'i hamlinellu ac mae amserlen o'r gwaith i'w wneud wedi'i chyhoeddi. Bydd cwblhau a phrofi byw yn digwydd ym mis Medi 2014.</p> <p>Gweithredwyd <code>expense@work</code>.</p> <p>Mae Pennaeth Cyfathrebu yn arwain ar brosiect y Cysylltiadau a'r Gronfa Ddata gyda chefnogaeth TGCh. Mae gwaith ar hyn yn mynd yn ei flaen a bydd yn parhau ar waith yn 2014/15.</p> <p>Gwnaed newidiadau i gronfa ddata'r arolwg o'r sefydliadau sy'n cael arian referniw i gynnwys nodweddion gwarchoddedig ac mae pob offeryn a thempled cysylltiedig yn barod i'w defnyddio.</p> <p>Mae pob tudalen tîm ar y fewnrwyd yn fyw ac eithrio'r ddau sy'n cael eu datblygu ar hyd</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>o bryd. Mae datblygiadau i wella'r defnydd gan bobl o hyd yn cael eu trafod yng Ngrŵp Defnyddwyr TGCh i lywio trafodaethau a phenderfyniadau'r Uwch Tîm Rheoli.</p> <p>Mae fframwaith tudalennau'r awdurdodau lleol ar Hwb bron yn gyflawn.</p> <p>Mae'r cyfryngau cymdeithasol ar y wefan erbyn hyn ar waith.</p> <p>Mae'r gwaith o roi Microsoft Lync ar waith wedi'i orffen ac mae integreiddio a phrofi gydag ystâd y cynadledda fideo ar waith i alluogi gweithiwr â gliniadur i ddefnyddio'n llawn gynadledda fideo o bwynt i bwynt a rhwng sawl pwynt. Mae peilot hefyd ar waith i archwilio integreiddio gyda'r system ffôn bresennol.</p>
35. Datblygu cyfres o gyhoeddiadau corfforaethol a fideos sy'n hyrwyddo ein brand a'n gwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau a fideos</li> <li>• Ymgyrch gyfryngol gefnogol</li> </ul>	<p>Mae'r ffilm sy'n hyrwyddo <i>Creadigrwydd a'r Celfyddydau</i> wedi'i gorffen a bydd yn cydreddeg â'r ymgyngoriad. Mae storïau o ddiddordeb am bobl yn cael eu coladu'n gyson a'u defnyddio pan fo hynny'n briodol.</p> <p>Nodwyd hyfforddiant pellach ar gyfer y fîm Cyfathrebu ym maes cynhyrchu fideo a symudwn ymlaen â'r gwaith hwn drwy'r Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol.</p>
36. Rheoli ystâd ein swyddfa'n effeithlon, diogel ac am y gwerth gorau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r gwaith o resymoli swyddfa Caerdydd</li> <li>• Cytuno ar ffordd newydd o fynd ati o ran Caerfyrddin</li> <li>• Ymgymryd ag ymarfer cynllunio at argyfwng</li> </ul>	<p>Mae posibiladau amgen ar gyfer defnydd llawr cyntaf ein swyddfa yng Nghaerdydd yn cael eu harchwilio ac rydym wedi dechrau trafodaethau am ein prydles bresennol gyda'n landlord.</p> <p>Rydym wedi cael lle newydd yng Nghaerfyrddin; a symudodd swyddfa Caerfyrddin ym Mai 2014.</p> <p>Cynhaliwyd ymarferion yn llwyddiannus ar gyfer ailosod systemau rhwydwaith a meddalwedd rhag ofn bydd argyfwng.</p>
37. Datblygu ein Gwasanaeth Gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwell gwybodaeth print ac ar-lein</li> <li>• Rhaglen ehangach o gymorthfeydd ariannu</li> </ul>	<p>Mae'r rhaglen Sesiynau Cyngori am Ariannu wedi'u haildrefnu a chanolbwynt penodol wedi'i roi ar ardaloedd lle bu'r galw yn isel yn draddodiadol.</p> <p>Mae rhai newidiadau wedi'u gweithredu o ganlyniad i argymhellion gweithgor yr</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
		artistiaid unigol. Byddwn yn ystyried canfyddiadau'r arolwg o randdeiliaid.
38. Gweithredu mesurau lleihau costau i gyflawni targedau ariannol ein Hadolygiad Sefydliadol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihau costau rhedeg grantiau mewn cymorth</li> </ul>	<p>Mae adroddiadau rheolaidd wedi'u darparu i'r Uwch Tîm Rheoli a'r Cyngor.</p> <p>Cyflawnwyd y targedau ariannol.</p>
39. Cadw achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio cynllun gweithredol, chwarter 1</li> <li>Monitro chwarterol</li> <li>Cadarnhau achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, chwarter 4</li> </ul>	<p>Eleni cafwyd yr adolygiad a ddigwydd tair blynedd o'n hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl. Sefydlwyd Grŵp Datblygu Sefydliadol i fonitro cynnydd yn ôl ein cynllun gweithredol Buddsoddwyr mewn Pobl drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Casgliad cyffredinol yr aseswr oedd bod cynnydd da'n amlwg mewn rhai meysydd ond roedd angen i ni wneud rhagor o waith a chymryd rhagor o amser i arddangos effaith. Byddwn yn canolbwyntio ar yr agwedd hon yn 2014/15.</p>
40. Asesu'n annibynnol effeithiolrwydd ein sefydliad	<ul style="list-style-type: none"> <li>Arolwg mewnol o foddhad y staff, chwarter 2</li> <li>Arolwg allanol o foddhad ein cwsmeriaid, chwarter 2</li> </ul>	Mae Arolwg y Rhanddeiliaid, y Cleientiaid a'r Staff wedi'i gwblhau a'i dderbyn. Mae'r Grŵp Llywio wedi adolygu adroddiad terfynol a chaiff ei rannu â'r cynulleidfaoedd perthnasol.
41. Cyflawni targedau cyhoeddus ar gyfer prosesu:  a) ceisiadau grant; b) taliadau ariannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Targedau rheoli grantiau</li> <li>Targedau talu cyflenwyr</li> </ul>	<p>Mae pob cais am grant wedi'i brosesu cyn y terfynau amser.</p> <p>Ar ddiwedd 2013/14, roeddem yn talu 95% o'n cyflenwyr yn ôl y telerau a gytunir yn ein polisiau talu ac 85% ohonynt mewn 10 diwrnod. Y llynedd roeddem wedi cyflawni 94% o ran talu'n ôl ein polisi a 72% mewn 10 diwrnod. Mae perfformiad yn cael ei adrodd mewn adroddiadau ariannol i'r Cyngor (yn chwarterol) ac i'r Uwch Tîm Rheoli (yn fisol).</p>
42. Adolygu a symlhau ein prosesau rhoi grantiau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu Grŵp Prosesu Grantiau, chwarter 1</li> <li>Cwblhau adolygiad o'r prosesau cyfredol, chwarter 2</li> <li>Adolygu a symleiddio'r holl ganllawiau, chwarter 2</li> </ul>	Roeddem wedi comisiynu gwerthusiad allanol o effeithiolrwydd ein canllawiau a byddem yn ystyried adolygu'r holl broses grantiau a chanllawiau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu Creadigrwydd a'r Celfyddydau ac o bosibl ymgorffori lleihad yn nifer y rhaglenni ariannu.

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>43. Rheoli ein hadnoddau ariannol safonau i atebolrwydd o'r radd flaenaf</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifon blynyddol statudol; archwiliadau cyfamserol a therfynol</li> <li>• Cyfrifon Llywodraeth Gyfan</li> <li>• Pennau cyllidebau</li> <li>• Cyfrifon rheoli misol</li> <li>• Ffurflenni statudol</li> </ul>	<p>Cyflawnwyd pob dyddiad cau o ran y ddwy set o gyfrifon statudol a Chyfrifon Llywodraeth Gyfan.</p> <p>Mae cyfrifon rheoli wedi'u cyflwyno i'r Uwch Tîm Rheoli ac adroddiadau ariannol i'r Cyngor</p>
<p>44. Datblygu perthynas adeiladol â Llywodraeth Cymru drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Cyflawni gofynion Llythyr Cylch Gwaith 2013/14 ac adrodd arnynt;</li> <li>b) Cyfarfodydd chwemisol gyda'r Gweinidog;</li> <li>c) Fforwm Diwylliant;</li> <li>ch) Cyfarfodydd monitro chwarterol gyda swyddogion</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llunio a chylchredeg dogfennau cyfarfodydd gan gadw at yr amserlen</li> <li>• Cynhyrchu adroddiadau fel sy'n briodol</li> </ul>	<p>Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod dogfennau ar gyfer cyfarfodydd yn cael eu cynhyrchu a hynny gan gadw at yr amserlenni a ddynodir.</p> <p>Mae adroddiadau yn cael eu cylchredeg, yn ôl y gofyn, i'r Gweinidog ac yn rhan o'n cyfarfodydd monitro chwarterol.</p> <p>Mae pob Cwestiwn Cynulliad yn cael ei ateb yn y terfynau amser. Yn ystod 2013/14 roeddem wedi cael 231 o gwestiynau Cynulliad a'u hateb.</p>
<p>45. Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012/13</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Roeddem wedi cynhyrchu a chyhoeddi Adroddiad gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Y Cynllun Gweithredol</li> <li>b. Y Cynllun Gweithredu'r Gymraeg</li> <li>c. Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</li> <li>ch. Cydraddoldebau</li> <li>d. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</li> <li>dd. Cyfrifoldebau Amgylcheddol</li> </ul> </li> </ul>	<p>Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i ddylunio a'i gyhoeddi ar ein gwefan.</p>



Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>46. Cefnogi rheolaeth gorfforaethol busnes Cyngor Celfyddydau Cymru drwy wneud y canlynol:</p> <p>a) Rheoli a threfnu'r Cyngor a'i bwyllgorau;</p> <p>b) Rheoli a threfnu'r Uwch Tîm Rheoli;</p> <p>c) Rheoli a threfnu'r Bwrdd Rheoli</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llunio'n brydlon agendâu, dogfennau a chofnodion cyfarfodydd</li> <li>• Trefnu: <ul style="list-style-type: none"> <li>a. 6 chyfarfod o'r Cyngor</li> <li>b. Cyfarfodydd wythnosol i'r Uwch Tîm Rheoli</li> </ul> </li> <li>• Cyfarfodydd chwarterol i'r Bwrdd Rheoli</li> </ul>	<p>Mae cyfarfodydd wedi'u hamserlennu mewn dyddiaduron ar gyfer eleni.</p> <p>Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod dogfennau ar gyfer cyfarfodydd yn cael eu cynhyrchu a hynny gan gadw at yr amserlenni a ddynodir.</p>
<p>47. Sicrhau amrywiaeth aelodau'r Cyngor a'r staff</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae 50% o aelodau'r Cyngor a'r staff yn siarad Cymraeg</li> <li>• Cynrychioli amrywiaeth yn y Cyngor</li> </ul>	<p>Ar hyn o bryd mae 60.4% o'n staff a 53% o aelodau'r Cyngor yn siarad Cymraeg.</p> <p>Cafwyd gwelliant yn amrywiaeth aelodau'r Cyngor yn sgil recriwtio aelodau newydd yn ystod 2012/13. Mae canfyddiadau a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2012/13 ac a gyflwynwyd gerbron y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn awgrymu bod eisiau rhagor o waith o ran cynyddu amrywiaeth ymhlith y staff a bydd hyn yn rhan o'n Cynllun Gweithredu ym maes Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2014/15.</p> <p>Serch hynny, bydd angen rheoli unrhyw gam gweithredu o hyn yn unol â chyfleoedd recriwtio fel y byddant yn codi.</p>
<p>48. Ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau gan Lywodraeth Cymru, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymdriniwyd â 100% o ymholiadau Llywodraeth Cymru, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn yr amseroedd a bennir</li> </ul>	<p>Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod pob cwyn a chais Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei ateb yn y terfynau amser sydd wedi'u dynodi. Yn ystod y flwyddyn cawsom un gŵyn ffurfiol o ran ymarfer tendro a gafodd ei gadarnhau'n rhannol. Cawsom hefyd 25 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a chafodd pob un ymateb cyn y dyddiadau cau statudol.</p>

Cam gweithredu	Targed	Cyflawniadau a pherfformiad
49. Cyflawni ein cyfrifoldebau amgylcheddol yn unol â Dyletswydd Gynaliadwy Llywodraeth Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhyrchu datganiad o effaith ar yr amgylchedd, chwarter 4</li> </ul>	<p>Rydym wedi cyflawni dyfarniad lefel 5 yng nghynllun archwilio amgylcheddol diweddar y Ddraig Werdd. Cafodd hyn ei gyflawni cyn yr amser a gafodd ei nodi i'w wneud sef 2015.</p> <p>Mae fformat adrodd chwarterol newydd wedi'i gytuno yn y cynllun Cyfathrebu Amgylcheddol – adroddiad blynyddol erbyn mis Ebrill 2014 gyda diweddariadau chwarterol i ddechrau ym mlwyddyn ariannol 2014/15.</p> <p>Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu ac mae cyfarfodydd ar y gweill.</p>
50. Gweithredu systemau talu cyflogau newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu Gwybodaeth Amser Go lawn ar sail fisol i Dollau a Chyllid ei Mawrhydi, chwarter 1</li> <li>Awtogofrestru i'r pensiwn</li> </ul>	<p>Cyflawnwyd Gwybodaeth Amser Real.</p> <p>Mae e-awtogofrestru i'w gyflwyno yn 2014/15 yn unol â'n diwrnod gweithredu.</p>

Monitirir yn fanwl berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad ac adroddir yn ôl yn chwarterol i'r Uwch Dîm Rheoli, y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

### *Polisiau rhoi grantiau*

Mae'r Cyngor yn monitro ceisiadau am grantiau rheolaidd ac untro gan sefydliadau ac unigolion ac mae'n monitro'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos budd i bobl Cymru ledled y sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Ariennir grantiau rheolaidd drwy grant mewn cymorth yn unig ond gellir ariannu grantiau untro drwy grant mewn cymorth neu incwm y loteri.

Rhoddir grantiau rheolaidd, neu refeniw blynyddol i bortffolio o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau artistig o safon. Mae ystyried unrhyw sefydliad ar gyfer y fath statws yn

dibynnu ar argaeledd arian, cynaliadwyedd y sefydliad, a'i gydweddu'n gryf â blaenoriaethau strategol Cyngor Celfyddydau Cymru. Ar hyn o bryd, mae pob sefydliad sy'n cael arian refeniw yn cydsynio â chytundeb arian refeniw am gyfnod rhwng un a thair blynedd sy'n nodi'r lefel o arian a ragwelir, y rhaglen o weithgareddau i'w chyflwyno, gofynion monitro ac adolygiad blynyddol, amodau safonol grant, ac unrhyw amodau ychwanegol. Hwysydd wrth wraidd strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn y dyfodol i ddatblygu celfyddydau Cymru.

Mae grantiau untro ar gael i ariannu prosiectau artistig o safon sy'n gyfyngedig o ran amser ac sy'n cyflawni orau flaenoriaethau ariannu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Tynnir ein sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherygl penodol gan ein monitro parhaus. Arweinia'r peryglon a nodir at gynnydd yn lefel y monitro, ac os bydd angen, gall olygu cadw taliad yn ôl a / neu ei ohirio.

Cyhoeddwn ganllawiau cyffredinol ar ariannu i sefydliadau ac unigolion a gynnwys fanylion llawn am flaenoriaethau ariannu a meini prawf cymhwysedd. Mae'r rhain ar gael yn unrhyw un o'n swyddfeydd ac o'n gwefan:

[www.cyngorcelfyddyaucymru.org.uk](http://www.cyngorcelfyddyaucymru.org.uk).

## **Adolygiad ariannol**

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell ariannu: grant mewn cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru; a chyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol, oherwydd ni yw un o'r cyrff a ddsbartha arian ymhlith achosion da. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau dosbarthu'r loteri.

## **Arian wrth gefn**

Polisi'r Cyngor ar arian cyfyngedig yw cofnodi ar wahân unrhyw grantiau, rhoddion a ffynonellau eraill o incwm a dderbynnir ar gyfer diben neu brosiect penodol, neu lle y gosodir cyfyngiadau sy'n llymach nag amcanion cyffredinol y Cyngor. Defnyddiwyd yr holl adnoddau hyn a ddeuai i mewn yn y flwyddyn at y diben a nodwyd.

Neilltuir y rhan fwyaf o arian anghyfyngedig y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn unol ag amodau'r grant mewn cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru. Caiiff unrhyw arian dros ben ei gario ymlaen a'i ddefnyddio i hyrwyddo amcanion siarter y Cyngor yn y flwyddyn ddilynol. Nid oedd unrhyw arian dynodedig ar 31 Mawrth 2014 (2013: £Dim).

Cyfyngir ar ein gallu i ddal arian wrth gefn gan gyfarwyddiadau hyblygrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer diwedd y mis a'r flwyddyn. Yn y paramedrau hyn, ein polisi yw rheoli llif arian drwy dynnu i lawr arian bob mis yn unol â gwariant wedi'i gynllunio gyda lwfans bach ar gyfer gofynion arian tymor byr nas rhagwelwyd. Adolygwn y polisi a'n sefyllfa o ran arian wrth gefn bob blwyddyn.

## **Buddsoddi**

Rheolir pwerau i fuddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 a'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl yn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd a negodwyd ar sail cyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gallai cyfraddau uwch fod ar gael ar gyfer arian cyfyngedig ar adnau hir dymor.

Ym mis Hydref 2013, i leihau'r perygl i'n harian elusennol a chyhoeddus tra, ar y llaw arall, yn cadw'r rheolaeth a'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer ein gwaith beunyddiol, agorodd Cyngor Celfyddydau Cymru gyfrifon gyda CCLA Investment Management Limited sy'n ein galluogi i drosglwyddo ein gwarged ariannol yn ddyddiol rhwng eu Cronfa Gadw i'r Sector Cyhoeddus a'n cyfrifon banc cyfredol. Yn ôl system Sgorio Fitch mae'r Gronfa yn AAmmf.

Rhodddwn bob llog a enillir ar arian a balansau banc sy'n codi o ganlyniad i'r arian a gawn gan Lywodraeth Cymru i Drysorlys Ei Mawrhydi drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

## Canlyniadau ariannol

	2013/14 £'000	2012/13 £'000
<b>Mae'r cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol, gan eithrio gweithgareddau dosbarthu'r Loteri, yn dangos:</b>		
Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn ar gyfer y flwyddyn	35,799	37,114
Adnoddau net a dderbyniwyd/(a dalwyd allan)	(1,295)	332
Asedau cyffredol net	1,684	2,925
Cyfanswm y balansau arian ar 31 Mawrth	1,940	3,235
a		
Blaenymrwymiadau grantiau o ran y flwyddyn ganlynol	27,733	28,129
<b>Mae'r cyfrifon Dosbarthu'r Loteri ar wahân yn dangos:</b>		
Cyfran y Cyngor o arenillion o'r Loteri Genedlaethol	16,892	19,355
<b>Ar y sail a amlinellwyd isod<sup>1</sup> o gyfuno'r canlynol:</b>		
Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a Loteri oedd	52,843	56,599
a		
Cyfanswm gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau <sup>1</sup> ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a Loteri oedd	56,784	50,055

<sup>1</sup> Codir grantiau cyffredinol ar y Datganiad Gweithgareddau Ariannol cyn gynted ag y cânt eu cynnig, heblaw am ymrwymadau ymlaen fel y disgrifir yn nodyn 1f yn y polisi Cyfrifyddu. Codir grantiau'r Loteri dim ond pan fydd y cynnig ffurfiol wedi'i dderbyn gan y sawl a gaiff y grant. Er nad yw pob un yn cael ei godi'n wariant yn Natganiad Gwariant Net Cynhwysfawr y Loteri, yn ystod 2013/14 cymeradwyodd y Cyngor grantiau'r Loteri o £18,078,000 (2012-13: £11,958,000). Mae cyfanswm y gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau wedi'i ddatgan ar y sail hon.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae ein blaenoriaethu ar gyfer 2014/15 yn cael eu disgrifio yn y tabl canlynol:

Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu	
<p><b>Beth ydym yn ceisio ei wneud?</b>            Rydym am i'n hartistiaid a'n sefydliadau allu creu eu gwaith gorau a chynnal eu hunain drwy safon eu gweithgareddau. Ein blaenoriaethau fydd buddsoddi yn ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw, cefnogi artistiaid unigol a'r gwyliau a'r digwyddiadau mawrion sy'n codi'n sylweddol broffil y celfyddydau.</p>	
<p><b>Amcanion ar gyfer 2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae arian refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer portffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw wedi lleihau'n ganran o gyfanswm yr incwm gan ddeg pwynt canran</li> <li>Mae 75% o'r portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw yn ddynodedig fel rhai 'perygl isel'</li> <li>Mae cynnydd o 25% yn enillion blynyddol ar gyfartaledd ymysg artistiaid unigol</li> <li>Cyflawni Strategaeth Gyfalaf pum mlynedd Cyngor Celfyddydau Cymru</li> </ul>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu pum modiwl yn rhaglen datblygu'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw (awtogofrestru pensiwn; hygyrchedd; llywodraethu; cyllid; prentisiaethau ac interniaethau)</li> <li>Cyflwyno cynllun Cynaliadwyedd a Gwynnwch</li> <li>Cynllun gweithredu i roi ar waith adroddiad <i>Cefnogi Artistiaid Unigol</i></li> <li>Cyflawni prosiect cyfalaf Pontio</li> <li>O leiaf bedair preswylfa artist wedi'u sefydlu</li> <li>Darparu Gŵyl Dylan Thomas 100</li> <li>Cytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi nesaf</li> </ul>
Cynyddu gwerth y cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i gelfyddydau Cymru	
<p><b>Beth ydym yn ceisio ei wneud?</b>            Rydym am alluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol blaenllaw yng Nghymru i wireddu eu huchelgais rhyngwladol drwy ehangu eu gorwelion, annog eu posibilïadau a chysylltu â phartneriaid a marchnadoedd sy'n ysbrydoli. Mewn byd sy'n gweithredu'n gynyddol ar lefel ryngddibynnol a chysylltiedig, rydym am i gelfyddydau Cymru allu gweithredu'n effeithiol yn y farchnad fyd-eang.</p>	
<p><b>Amcanion ar gyfer 2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yn trosoli 3:1 o enillion ar fuddsoddiadau</li> </ul>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol</li> <li>Cytundeb partneriaeth newydd gyda The British Council</li> </ul>

<p><b>Amcanion ar gyfer 2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael deg artist o Gymru i ymddangos mewn cyfle arddangos mewn o leiaf bum digwyddiad rhyngwladol dan y brand "Cymru yn..."</li> <li>• Sicrhau a chynnal dau brif ddigwyddiad celfyddydol rhyngwladol yng Nghymru</li> <li>• Ymgyfranogi mewn o leiaf ddau brosiect rhyngwladol sy'n cael eu hariannu gan Ewrop</li> <li>• Cael cynnydd yn nifer y gynulleidfa ar gyfer Cymru yn Fenis 2015 a 2017</li> <li>• Cynnwys artistiaid neu gael artistiaid i arwain dwy ddirprwyaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru bob blwyddyn</li> </ul>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno ar yr ymrwiniad o ran Desg Ewropeaidd Cymru Greadigol</li> <li>• Cyhoeddi gwerthusiad o WOMEX 2013</li> <li>• Cytuno ar strategaeth ar gyfer Patagonia 2015</li> <li>• Sicrhau cynrychiolaeth i artistiaid Cymru mewn un cyfle arddangos / digwyddiad rhwydweithio</li> <li>• Darparu o leiaf un prosiect mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru</li> </ul>
<p><b>Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau</b></p>	
<p><b>Beth ydym yn ceisio ei wneud?</b>  Rydym am annog cynifer o bobl â phosibl yng Nghymru i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Ond nid yw'n fater yn unig o amddiffyn a chadw'r hyn sy'n bodoli eisoes. Hoffem i'r celfyddydau a ariannwn gyrraedd croestoriad ehangach o bobl Cymru – pobl a gafodd yn y gorffennol anhawster i fynychu'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.</p>	
<p><b>Amcanion ar gyfer 2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd o bum pwynt canran mewn mynychu ac ymgyfranogi ymhlith categorïau cymdeithasol C2, D, E</li> <li>• Cynnydd o 5% yn yr arian i'r deg awdurdod lleol sydd ar hyn o bryd yn cael lefel isaf y pen o arian Loteri</li> <li>• Cynnydd o 10% mewn cynulleidfaoedd ar gyfer prosiectau Teithio Cenedlaethol sy'n cael eu hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru</li> </ul>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu o leiaf dri phrosiect <i>Camau Creadigol</i>, tri phrosiect <i>Ein Lle Ni</i> a thri phrosiect <i>Creu Cymunedau Cyfoes</i> a fydd yn enghreifftiau disglair</li> <li>• Dau gomisiwn o Gymru o leiaf ar gyfer <i>The Space</i></li> <li>• Gweithredu Cynllun Tocynnau Anabledd</li> <li>• Darparu'r ail flwyddyn o Raglen y Celfyddydau Teuluol</li> <li>• 580 o ddigwyddiadau <i>Noson Allan</i>, gydag o leiaf 130 ohonynt yn digwydd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf</li> <li>• Sefydlu prosiectau partneriaeth gyda Diverse Cymru a Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru</li> </ul>

## Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc

### Beth ydym yn ceisio ei wneud?

Rydym am gael rhagor o blant a phobl ifainc ledled Cymru i ymwneud â gweithgarwch creadigol o safon. Beth bynnag fo'r amgylchiadau y mae'r plant a'r bobl ifainc yn eu hwynebu, hoffem i'n holl bobl ifainc gael y cyfle i ddatblygu eu talentau (gan gynnwys hyd at lefel estynedig o gyrhaeddiad).

Blaenoriaeth allweddol fydd gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar weithredu'r Adolygiad o'r Celfyddydau ac Addysg.

### Amcanion ar gyfer 2018

- Cynnydd o 5% yn nifer y plant a'r bobl ifainc yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig sy'n mynychu'r celfyddydau neu'n ymgyfranogi ohonynt
- Cyhoeddi tystiolaeth sy'n arddangos ymwneud â gweithgarwch creadigol a chynnydd yn lefelau cyrhaeddiad addysgiadol

### Targedau ar gyfer 2014/15

- Sefydlu rhaglen *Sbarduno*
- Cytundeb gyda Llywodraeth Cymru ar y cynllun gweithredu i roi ar waith yr Adolygiad o'r Celfyddydau ac Addysg

## Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd

### Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?

Rydym am ddarparu strategaeth ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, ac ar gyfer celfyddydau Cymru, sy'n annog arloesedd ac entrepreneuriaeth ac sy'n galluogi gwaith ein hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol i fod yn fwy gwydn a chynaliadwy.

Bydd bod yn wydn yn ariannol yn allweddol ar gyfer y dyfodol. Serch hynny, mae ein diffiniad o gynaliadwyedd yn un eang ac mae'n cynnwys yr agweddau ar les amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

### Targedau ar gyfer 2018

- Dod yn llofnodwr i'r Siarter Datblygiad Cynaliadwy
- Mae arian refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer portffolio'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw wedi lleihau fel canran o gyfanswm yr incwm gan ddeg pwynt canran
- Mae'r portffolio o'r sefydliadau sy'n cael arian refeniw wedi cyflawni arbediad o ddeg pwynt canran yn eu lefel o allyriadau carbon
- Mae'r partneriaethau cyfryngol gyda'r BBC ac S4C wedi'u hadnewyddu

### Targedau ar gyfer 2014/15

- Cyflawni mapio archwiliad prosiectau Cynaliadwyedd Cymru
- Cytuno â'r portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw ar brosesau ar gyfer mesur a monitro targedau amgylcheddol
- Gweithredu safonau 'ardderchog' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd a safon 'da iawn' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau ar gyfer pob adnewyddiad

<p><b>Targedau ar gyfer 2018</b></p>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno ar gynlluniau gweithredu ar gyfer partneriaethau â'r BBC ac S4C gan gefnogi o leiaf bedwar prosiect</li> <li>• Gwerthuso cronfa Ymchwil a Datblygu Nesta</li> </ul>
<p><b>Amddiffyn a thyfu'r sail economaidd ar gyfer celfyddydau Cymru</b></p>	
<p><b>Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?</b>  Mae celfyddydau Cymru yn cael eu cynnal gan ystod o wahanol sefydliadau sy'n cyfrannu arian, adnoddau ac arbenigedd. Serch hynny, mae pwysau ar ariannu (yn enwedig yn y sector cyhoeddus) gyda'n hawdurdodau lleol yn enwedig yn wynebu anawsterau cynyddol wrth gynnal eu lefelau presennol o ariannu hyd yn oed. Ein blaenoriaeth yn ystod 2014/15 fydd ymgyrch eiriolaeth a fydd â'r nod o amddiffyn buddsoddiad yr awdurdod lleol yn y celfyddydau.</p>	
<p><b>Targedau ar gyfer 2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal incwm yr awdurdod lleol ar lefel gymaradwy â lefel 2013/14</li> <li>• Cynyddu gwerth benthyciadau'r <i>Cynllun Casglu</i> gan 15%</li> <li>• Cynyddu incwm o'r sector preifat i gelfyddydau Cymru gan 20%</li> <li>• Cyflawni enillion 3:1 ar fuddsoddiadau Cyngor Celfyddydau Cymru</li> <li>• Sicrhau lefel o ariannu gan Ewrop sy'n cyfateb i 3% o gymorth grant gan y Llywodraeth</li> </ul>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Comisiynu archwiliad o fuddsoddiad yr awdurdodau lleol yn y celfyddydau</li> <li>• Datblygu ymgyrch eiriolaeth ar gyfer awdurdodau lleol</li> <li>• Cynyddu gwerth benthyciadau'r <i>Cynllun Casglu</i> gan 5%</li> </ul>
<p><b>Arddangos gwerth y celfyddydau</b></p>	
<p><b>Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?</b>  Rydym am hyrwyddo'r syniad bod celfyddydau Cymru yn gadarnhaol ac ymgysylltiol gan sicrhau bod y sector celfyddydol a'r cyhoedd yng Nghymru yn deall beth y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ceisio ei gyflawni.</p>	
<p><b>Targedau ar gyfer 2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd o 5% yn y sylw y mae celfyddydau Cymru yn ei gael yn y cyfryngau</li> <li>• Cynnydd o 10% yng ngraddfa adnabod y cyhoedd o Gyngor Celfyddydau Cymru</li> </ul>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pum prif ymgyrch o leiaf yn y wasg / yn y cyfryngau</li> <li>• Cyhoeddi pecyn gwybodaeth Eiriolaeth</li> </ul>



<p><b>Targedau ar gyfer 2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd o 25% yn nifer y trawiadau ar ein gwefan</li> <li>• Cynnydd o 5% yn y mynychuadau i'n Cynhadledd Flynnyddol</li> <li>• Cynnydd o 15% yn y mynychuadau yn ein digwyddiadau <i>Sgwrs</i></li> </ul>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd o 15% yn y mynychuadau yn ein digwyddiadau <i>Sgwrs</i></li> <li>• Datblygu cyfryngau a llwyfannau gwe newydd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru</li> </ul>
<p><b>Gwneud Cyngor Celfyddydau Cymru yn gorff cyhoeddus effeithiol ac effeithlon</b></p>	
<p><b>Beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni?</b>  A ninnau'n gorff cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb i greu sefydliad cryf a hyderus sy'n darparu gwasanaethau sy'n berthnasol a defnyddiol. Darparwn wasanaethau proffesiynol ar draws ystod o ddisgyblaethau. Yn ogystal ag anelu am safon wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, rydym yn ymroddedig i'w chyrraedd mewn ffyrdd sy'n lleihau'r gost gan gydnabod hefyd ein cyfrifoldeb i ddod yn sefydliad sy'n fwy cynaliadwy'n amgylcheddol.</p>	
<p><b>Targedau ar gyfer 2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu cost rhedeg grantiau cymorth gan ddim rhagor na 5% o'i chymharu â lefel 2013/14</li> <li>• Cyrraedd y targedau'n gyson o ran prosesu trafodion (taliadau grant a thaliadau i ddarparwyr gwasanaeth)</li> <li>• Cadw ein hachrediad <i>Buddsoddwyr mewn Pobl</i></li> <li>• Bod lefelau absenoldeb y staff yn y chwarter uchaf o sefydliadau eraill tebyg sy'n gyrrff a noddur gan Lywodraeth Cymru</li> <li>• Cyrraedd safon 14001 ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol o Ddigwyddiadau</li> <li>• Cyflawni asesiad "sicrwydd sylweddol" o leiaf mewn 90% o adroddiadau sicrwydd archwilio mewnol</li> <li>• Ymdrin â 100% o gwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y terfynau amser priodol</li> <li>• Asesiad bodddhad o 70% gan Randdeiliaid a Chleientiaid</li> </ul>	<p><b>Targedau ar gyfer 2014/15</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihad o £50,000 yng nghostau rhedeg grantiau cymorth</li> <li>• Cyflawni asesiad "sicrwydd sylweddol" mewn o leiaf 75% o adroddiadau sicrwydd archwilio mewnol</li> <li>• Ymdriniwyd â 100% o gwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y terfynau amser priodol</li> <li>• Adolygu rheolaeth ein brand</li> </ul>

## Adnoddau dynol

### *Cyfle cyfartal*

Rydym yn ymroddedig i bolisi cyfle cyfartal o ran ein harferion cyflogi. Yn benodol, anela'r Cyngor at sicrhau na thrinnir yr un darpar weithiwr nac un gwirioneddol yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Rydym ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddefnyddwyr Symbolau Anabledd a adlewyrcha ein hymroddiad i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i weithwyr anabl.

### *Absenoldeb salwch*

Yn 2013/14 cyfanswm salwch y staff oedd 587 dydd (2012/13: 364 dydd). Cynrychiolai hyn 2.98% (2012/13: 1.97%) seiliedig ar 260 diwrnod gwaith, gan gynnwys 1.67% (2012/13: 0.16%) o ganlyniad i absenoldeb salwch hir dymor (sef dros 28 diwrnod).

### *Cyfathrebu â'r gweithwyr*

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr undeb llafur, Unite, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae rheolwyr a'r undeb yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion cyfredol. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd adrannol rheolaidd ac mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr ac Arweinwyr Tîm roi adroddiad i'w staff ar faterion a drafodir yn y Cyngor ac yng nghyfarfodydd yr Uwch Tîm Rheoli a'r Bwrdd Rheoli.

## Cynllun pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor Celfyddydau Cymru 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddiant diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog felly ni allwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Yn unol â pholisiau cyfrifyddu'r Cyngor, rhoddwyd cyfrif am

y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag FRS 17.

Cyflwynodd Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd gynllun cyfraniad diffiniedig, Pensiwn y Bobl, sy'n ddewis amgen i ddiwallu gofynion deddfwriaeth awtogofrestru. Cafodd y nifer bychan o weithwyr cymwys nad oeddynt yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor Celfyddydau Cymru eu hawtogofrestru ar gyfer y cynllun cyfraniad diffiniedig ar 1 Mai 2014 sef diwrnod gweithredu swyddogol y Cyngor. Cyfrifyddir ar gyfer y cynllun yn unol ag FRS 17.

## Talu credydwyr

Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a Chôd Arfer Talu Gwell Llywodraeth Prydain, mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod mewn 30 diwrnod ar ôl cael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod y Cyngor yw talu 100% o anfonebau gan gynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch pan ddatrysir yr anghydfod, yn unol â'r telerau hyn. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, talodd Cyngor Celfyddydau Cymru 95% (2012/23: 94%) o'r holl anfonebau yn ôl telerau ei bolisi talu. Ers Tachwedd 2008 bwriadwn dalu pob anfoneb mewn 10 diwrnod yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2013/14 talwyd 85% (2012/13: 72%) o anfonebau mewn 10 diwrnod. Ni ragwelir y newidir ein polisi yn y blynnyddoedd i ddod.

## Perygl ariannol a rheoli cyfalaf

Ceidw'r Cyngor offerynnau ariannol yn bennaf i ariannu ei weithrediadau, er enghraifft, dyledwyr a chredydwyr masnachol a balansau arian sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Gwneir y gwaith o reoli peryglon ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, dyledwyr a chredydwyr masnachol yn bennaf, drwy gyfres o bolisiau a gweithdrefnau. Rheolir y peryglon hyn fel a ganlyn:

**Perygl hylifedd** - mae'r Cyngor yn fodlon fod ganddo adnoddau hylifedd digonol, ar ffurf arian yn y banc ac arian y cytunwyd arno ar gyfer 2014/15 i fodloni pob ymrwymiad cyfredol a gontractiwyd. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol.

**Perygl cyfraddau llog** - cedwir balansau a gawn gan Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol dim rhybudd a oedd â chyfradd llog ar gyfartaledd o 0.38% (2012/13: 0.56%) yn y flwyddyn. Ar gyfartaledd roedd yr arian gwarged dyddiol a fuddsoddiwyd yng nghronfa gadw'r sector cyhoeddus wedi cario enillion ar fuddsoddi o 0.34% yn y flwyddyn (2012/13: amherthnasol). Y balans arian diwedd y flwyddyn anghyfyngedig effeithiol a ddelid gan y Cyngor yn y banc oedd £789,000 (2013: £1,065,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i beryglon cyfradd llog sylweddol.

**Perygl arian tramor** - nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon cyfnewid arian tramor.

**Perygl llif arian** - Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon llif arian sylweddol.

### Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cywirdeb data. Sicrha systemau TGCh fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Hyd y gwyddom, ni chollwyd unrhyw ddata yn y cyfnod dan sylw.

### Materion cymdeithasol a chymunedol

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod arian y Cyngor yn hygyrch ac o fudd i holl ddinasyddion Cymru. A ninnau'n gorff a ariennir gan y cyhoedd, mae sicrhau rhagor o hygyrchedd i'r celfyddydau yn flaenoriaeth naturiol. Rydym yn llwyr ymroddedig i ddymchwel y rhwystrau sy'n atal a llesteirio pobl rhag mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae gennym strategaethau o hyd sy'n targedu pobl ifainc, y celfyddydau cymunedol a gwirfoddol ac ehangu ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau. Eleni rydym wedi symud y gwaith ymlaen ar nifer o raglenni allweddol. Rydym wedi comisiynu gwaith i sefydlu cynllun tocynnau i bobl ag anabledd ar gyfer mynychwyr theatr anabl a'u gofalwyr ac wedi comisiynu Pecyn Gwybodaeth i'r celfyddydau o ran amrywiaeth a chydarddoldebau a rhaglen wedi'i theilwra o hyfforddi a datblygiad proffesiynol parhaus i'n staff.

Roeddem wedi lansio prosiect ymgyfranogol peilot, mewn partneriaeth â Chymunedau'n Gyntaf, a oedd yn targedu'r bobl ifainc fwyaf difreintiedig ac roeddem wedi dechrau trafodaethau gyda'r Sefydliad Baring ac Age Cymru am gefnogi prosiect sy'n canolbwyntio ar ein pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Mae rhaglen *Ein Lle Ni* wedi darparu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau a darparwyr celfyddydol eraill i archwilio ffyrdd arloesol o fynd ati o ran datblygu cynulleidfa, targedu pobl ifainc a phobl dduon ac ethnig.

Mae gan ein cynlluniau grant flaenoriaethau trosfwaol wedi'u hanelu at brosiectau sy'n hybu gwaith artistiaid o grwpiau a dangynrychiolir megis pobl anabl a phobl dduon ac ethnig. Cydnabyddwn ddiwylliant dwyieithog Cymru a rhoddwn flaenoriaeth i geisiadau am brosiectau a ddarperir drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Fel yr awn yn ein blaen yn bellach i'r flwyddyn 2014/15, ein canolbwynt fydd i orffen ac adeiladu ar y prosiectau yr ydym wedi'u dechrau eleni. Caiff y pecyn gwybodaeth amrywiaeth ei lansio drwy gyfres o ddigwyddiadau hyfforddi a bydd ein rhaglen gydraddoldebau fewnol o hyfforddiant cydraddoldeb yn cychwyn. Byddwn yn gwneud cynnydd gyda'n cynllun tocynnau i bobl anabl a bydd ein prosiect partneriaeth i bobl hŷn yn dechrau.

Plant a phobl ifainc fydd prif ganolbwynt ein gwaith fel yr awn ati i weithredu ein gwaith o amgylch tlodi plant a'r celfyddydau ac addysg.

Ein bwriad yw ail-lansio *Ein Lle Ni* gyda golwg ar ganolbwyntio ar deuluoedd sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

## Cynaliadwyedd

Ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru "*Cymru Gynaliadwy – Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell*" mae gweledigaeth a chynigion i ymgorffori cynaliadwyedd yn brif egwyddor drefniadol gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru pan â Mesur Datblygiad Cynaliadwy yn ddeddf gwlad. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru ymhlith y sefydliadau cyntaf a fydd yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Gynaliadwyedd pan ddaw'n gyfraith gwlad.

Felly rydym wedi adlewyrchu hyn yn natblygiad ein strategaeth datblygu'r celfyddydau newydd, *Ysbrydoli: Creadigrwydd a'r Celfyddydau* sy'n rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein gweithgareddau yn y dyfodol ac yn archwilio mewn ffordd gyfannol sut y mae sector y celfyddydau yn gallu cyfrannu at gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Yn ei gyfarfod fis Hydref 2013, ystyriodd a chymeradwyodd y Cyngor ddogfen cychwyn prosiect ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o ran sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o ran datblygu cynaliadwy. Prif amcanion y grŵp oedd:

1. Cynllunio, trefnu a chyflawni strategaeth datblygu gynaliadwy ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru
2. Datblygu cynllun gweithredol i gyflawni'r uchod a chydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol oddi wrth Lywodraeth Cymru (i'w gweithredu o fis Ebrill 2014 ymlaen).

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cyfarfod ddwywaith, unwaith ym mis Tachwedd 2013, ac unwaith ym mis Mawrth 2014 ac mae wedi gwneud cynnydd ardderchog. Rydym wedi comisiynu ymchwil ac ymarfer mapio i nodi a

rhannu modelau o'r ymarfer gorau yng Nghymru a thu hwnt. Hefyd rydym wedi comisiynu darn o ffilm ddigidol sy'n dadlau achos datblygiad cynaliadwy i fod yn gymorth wrth hyfforddi staff a sefydliadau celfyddydol ac yn ein swyddogaeth o arwain yn sector y celfyddydau.

Erbyn hyn mae gennym ddrafft o bolisi datblygu cynaliadwy a fydd yn arwain ar hyd tair ffordd - yn gyntaf, yr hyn y gallwn ei ddarparu ein hunain drwy ein gweithdrefnau, ein polisiâu a'n gwasanaethau ein hunain; yn ail, sut y gallwn annog a chefnogi'r unigolion a sefydliadau yr ydym yn gweithio gyda hwy er mwyn cyflawni hyn ac yn drydydd, sut y gallwn ddefnyddio ein safle arweiniol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy'n ehangach. Rydym hefyd yn diweddu'r flwyddyn gyda chynllun gweithredol i ddatblygu'r amcanion a monitro cynnydd drwy gydol y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn y flwyddyn a ddaw datblygwn ein cynlluniau i gyflawni ein dyletswyddau dan y Bil Datblygu Cynaliadwy i sicrhau y cyflawnwn ein rhan i'r eithaf wrth wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Rydym yn llwyr ymroddedig i wneud hyn.

## Archwilio

Yn unol ag erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliad allanol y Cyngor yn unol â'r telerau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cyngor yn ymwybodol ohoni, ac mae wedi cymryd yr holl gamau posibl yn rhinwedd ei swydd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Adroddiad Amgylcheddol

Rydym yn ymroddedig i redeg ein busnes mewn modd cynaliadwy a chymhwyso ymarfer amgylcheddol da er mwyn lleihau ein heffaith amgylcheddol a gwella ein perfformiad yn barhaus.

Er ein bod yn is na lefel de minimis Llywodraeth Cymru, penderfynasom y byddem yn parhau i adrodd yn wirfoddol yn llawnach am ein perfformiad amgylcheddol. Rydym o'r farn bod hyn yn unol ag ysbryd dyheadau Llywodraeth Cymru o ran yr agenda datblygu cynaliadwy a'n hymrwymiad i yrru'r agenda yn ei blaen.

### Adolygiad o gynnydd:

Ers inni gyflwyno polisi amgylchedd ychydig o flynyddoedd yn ôl, rydym wedi canolbwyntio ar wella ein perfformiad amgylcheddol. Rydym wedi gwneud cynnydd da, drwy gyfuniad o fuddsoddiad ariannol, cyflwyno systemau, newid ein hymarfer gweithredu a thrwy ymrwymiad ein staff.

Rydym yn parhau i weithio o dri lleoliad ledled Cymru a byddwn, yn rhan gynnar y flwyddyn ariannol newydd, wedi cyrraedd ein targed i leihau maint ein hystâd gan 25%. Erbyn hyn mae ein staff yn y Gogledd yn gweithio o swyddfa lai ac rydym wedi symud ein staff yng Nghaerdydd i le llai ac yn ddiweddar symudasom i swyddfa lai yn y Gorllewin. Yn ein swyddfeydd mae ystod o ddyfeisiau ac offer sy'n arbed ynni.

Mae ein swyddfeydd yn hygyrch drwy rwydweithiau cludiant cyhoeddus. Yn y blynyddoedd diweddar rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus i'n cyrraedd yn ogystal â chynnydd yn nifer y staff sy'n defnyddio trenau a bysiau ar eu teithiau i'r gwaith ac oddi yno.

Rydym yn defnyddio dyfeisiau ac offer sy'n arbed ynni i leihau defnydd trydan ac annog y staff i leihau defnydd lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Yn ddiweddar yn lle ein dyfeisiau amlwrpas llungopiö ac argraffu cawsom offer newydd â sgôr seren ynni sy'n lleihau defnydd

ynni gan 35% o'u cymharu â'r hen fodelau. Rydym hefyd wedi cael monitorau newydd yn lle pob un o'n hen rai. Mae gan y rhain sgôr seren ynni ac maent yn lleihau defnyddio ynni gan 25% o'u cymharu â sgriniau deuodau allyrru golau tebyg.

Ffocws ein strategaeth TGCh yn y blynyddoedd diweddar fu ar estyn defnydd ein seilwaith technoleg wybodaeth i ddarparu buddion busnes ac amgylcheddol.

Mae dwy o'n systemau allweddol – systemau cyllid ac ymgeisio ar-lein am grant – yn llwyr electronig o'r archeb neu'r cais gwreiddiol hyd at y taliad olaf. Mae pob dogfen ategol yn hygyrch yn electronig. Rydym hefyd yn sganio pob llythyr ac anfonebau ac ati sy'n dod atom. Mae hyn yn galluogi'r staff i gael hygyrchedd i ddogfennau o bell yn ogystal â lleihau swm y papur yr ydym yn ei dderbyn, yn ei drin, yn ei storio a'i ailgylchu gyda gostyngiadau o ganlyniad yn ein gofynion storio.

Rydym wedi gwneud ein gweinyddion TG yn rhai rhithiol ac o ganlyniad mae angen llai o ynni i'w gyrru a'u hoeri.

Mae gan fwy na hanner ein gweithlu liniaduron a ffonau clyfar gan eu galluogi i weithio'n symudol sy'n lleihau eu dibyniaeth ar orfod gweithio o'n swyddfeydd. Bu hyn yn fodd i leihau eu teithiau i'r gwaith ac, yn eu tro, eu hallyriadau carbon deuocsid. Ni allem hyd yn hyn adrodd yn gywir ar effaith hyn ond byddwn yn archwilio'r posibilid o wneud hyn yn y dyfodol.

Rydym wedi diweddarau ac ehangu ein gallu cynadledda fideo ymhob un o'n tair swyddfa ac rydym yn hyrwyddo'n weithredol ddefnyddio'r cyfleuster yn ddewis amgen yn hytrach na theithio. Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu rhaglen i alluogi ein gweithwyr symudol i ymgyfranogi o gyfarfodydd cynadledda fideo â chydweithwyr a chleientiaid pan fônt i ffwrdd o'n swyddfeydd. Rydym yn disgwyl i lwyr weithredu'r fenter hon yn ystod 2014/15. Yn ogystal â gwella perfformiad amgylcheddol

ein swyddfeydd, rydym hefyd wedi gwneud cynnydd wrth newid ymddygiadau sefydliadol.

Ond golygai cyflwyno strwythur staffio newydd a threfniadau gweithio mwy symudol a hyblyg yn 2011 fod rhai o'r staff yn gorfod teithio'n fwy rhwng ein swyddfeydd neu wrth ymweld â'r sefydliadau a ariannwn. Serch hynny, rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau i wrthbwyso effaith hyn.

Rydym yn hyrwyddo ac annog defnydd ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio gan gyfyngu ar deithiau i rai angenrheidiol yn unig ac annog y staff i deithio yn y ffordd fwyaf effeithiol gan gymryd i ystyriaeth agweddau amgylchedd ac arian. Rydym yn annog rhannu ceir ac rydym wedi darparu raciau cadw beiciau yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Rydym yn ystyried cyflwyno cymhellion pellach.

Mae ein rhaglen sefydlu staff yn cynnwys Ymwybyddiaeth Amgylcheddol ac mae aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant a diweddariadau achlysurol fel sy'n briodol.

Hyrwyddwn gwtogi gwastraff ymhlith ein staff drwy annog lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu. Hyrwyddwn yn weithredol ailgylchu a didoli gwastraff yn fewnol sy'n lleihau'r hyn a anfonir i'r safle tirlenwi a defnyddiwn sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff. Ailgylchwn ein hoffer TG sy'n ddiangen neu'n rhy hen i'w defnyddio.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr o gyfarpar swyddfa a chyflenwadau bolisiau amgylcheddol a systemau adrodd sydd ar waith ac yr ydym yn ystyried perfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol pan ddewiswn gontractwyr a chyflenwyr.

Rydym wedi safoni ein papur gohebu a defnyddiwn bapur Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd wedi'i ailgylchu ar gyfer o leiaf 90% o'n hanghenion copïo a'n defnydd mewnol. Caiiff rheolwyr adroddiadau misol sy'n dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopïo i annog defnydd is yn gyffredinol.

Mae gan ein contractwyr glanhau bolisiau amgylcheddol ar waith i sicrhau y defnyddiant gynhyrchion ac offer ecogyfeillgar; rhaid cytuno â ni unrhyw newid yn y cynhyrchion glanhau.

Yn y blynyddoedd diweddar rydym wedi lleihau'n sylweddol nifer y copïau o'n cyhoeddiadau corfforaethol ac erbyn hyn cynhyrchu copïau electronig yw'n dewis cyntaf o ran cyhoeddi unrhyw beth. Bu hyn yn fodd i leihau ein defnydd o bapur, y nifer o gopïau papur a gawn ac sy'n rhaid i ni eu storio.

Yn gysylltiedig â hyn, mae ein gwefan yn darparu ystod eang o wybodaeth i ymgeiswyr grantiau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol, ac i'r cyhoedd. Mae hyn yn ein cynorthwyo i ddarparu ein lefel o wasanaeth heb yr angen i argraffu ac anfon copïau papur. Mae ein prif wefan erbyn hyn ar waith am dros bedair blynedd, felly byddwn yn adolygu ein cyfres o wefannau a'u cynnwys yn ystod y flwyddyn gyda golwg ar eu gwneud yn fwy hygyrch a chynyddu lefel y wybodaeth a chynnwys a gwella ein safonau gwasanaeth.

Roeddem wrth ein bodd bod ein hymdrechion wedi'u cydnabod a'u bod yn gymorth inni sicrhau lefel 5 o achrediad y Ddraig Werdd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ystyried hyn yn dystiolaeth o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn y blynyddoedd diweddar.

### Ein perfformiad:

Mae ein systemau adrodd mewnol yn ein galluogi i ddal a mesur manylion o'n defnydd o ddefnyddiau traul, gwastraff, ynni, dŵr a theithio'r staff ac felly ein hallyriadau carbon deuocsid. Gan ddilyn canllawiau'r Ddraig Werdd, rydym wedi gwella ein matrices adrodd gwastraff ac yn bwriadu parhau i ehangu a choethi ein hadrodd.

Mae pob un o'n tair swyddfa'n cael eu rhannu ag eraill gyda rhai costau wedi'u cynnwys yn y tâl gwasanaeth, yn benodol o ran costau gwastraff a defnydd dŵr. Mae'r sefyllfa hon yn cyfyngu ar ein gallu i asesu'n gywir ein defnydd

dŵr ac i raddau ein defnydd trydan hefyd. Byddwn yn archwilio gyda'n landlordiaid yr ochr ymarferol o gyflwyno systemau i wella sut y daliwn ddata.

	2013/14	2012/13
<b>Gwastraff:</b>		
<b>Anariannol (tunelli metrig)</b>		
Safle tirlenwi - <i>amcangyfrif</i>	1.65	2.2
Ailddefnyddio/ailgylchu - <i>amcangyfrif</i>	6.44	7.45
<b>Allyriadau nwy tŷ gwydr tunelli metrig (carbon deuocsid)</b>		
Allyriadau yn eu crynswth, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol)	61	61
<b>Defnyddio ynni (cilowat-awr)</b>		
Trydan (anadnewyddadwy)	125,644	126,708
Trydan (adnewyddadwy)		
Nwy	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Dangosyddion ariannol (£)</b>		
Gwariant - ynni	21,709	18,900
Costau cyflenwi dŵr (ystâd y swyddfa) – ni allwn eu hasesu ar hyn o bryd, maent yn rhan o'r tâl gwasanaeth	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Allyriadau teithio (tunelli metrig carbon deuocsid)</b>		
Trên	8	12
Awyren <sup>1</sup>	64	64
Ceir/faniau	25	35
<b>Costau teithio (£)</b>		
Trên	24,085	33,194
Awyren	22,646	19,981
Ceir/faniau	47,956	39,440
<b>Teithio (milltiroedd)</b>		
Trên	102,761	154,806
Awyren	224,369	221,803
Ceir/faniau	65,695	86,789

<sup>1</sup> Sy'n cynnwys dylanwad y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol ynghlwm wrth deithio awyr i ddal yr effaith fwyaf ar yr hinsawdd. Mae'r newid yn y cydbwysedd ymbelydrol yn mesur effaith amgylcheddol yr allyriadau o NOx (ocsidau nitraidd) ac ager dŵr wrth gael eu rhyddhau yn uchel yn yr awyr.

## Ein gallu i ddylanwadu:

Ni yw'r dosbarthwr mwyaf o grantiau yn sector celfyddydol Cymru, rydym mewn lle ardderchog i ddylanwadu ar ymddygiad a pherfformiad ymhlith yr unigolion a'r sefydliadau a ariannwn.

Yn y blynyddoedd diwethaf roeddem wedi ariannu y rhaglen *Eginiad* a oedd wedi canolbwyntio ar seilwaith celfyddydol isel ei garbon a datblygu swyddogaeth y celfyddydau yn bair syniadau a gweledigaethau ar gyfer *Cenedl Un Blaned* isel ei charbon yng Nghymru. Roedd ein gwaith yn fodd i ariannu uwchgynhadledd *Eginiad*, digwyddiad ym maes y celfyddydau a chynaliadwyedd a ddigwyddodd ym Machynlleth yn hwyr yn 2012. Roeddem wedi ariannu comisiynau artistiaid a gwaith ffilm cysylltiedig â'r digwyddiad a oedd, yn ei dro, yn ymddangos ar fenter y BBC / Cyngor Celfyddydau Lloegr, *The Space*. Wedyn dechreuasom brosiect artist preswyl yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen a chynnig cefnogaeth bellach i *Eginiad* i gwmpasu prosiect dogfennu ar y we.

Anogwn yn weithredol safonau amgylcheddol uchel yn y prosiectau cyfalaf a ariannwn â grant. Dyma ddwy enghraifft gyfredol ymhlith nifer: y prif brosiect adeiladu o'r newydd ym Mangor, *Pontio*, a fydd yn cyrraedd safon ardderchog Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau a phrosiect *Glynn Vivian* yn Abertawe a fydd yn cyrraedd safon dda iawn Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau oherwydd ei statws fel adeilad hanesyddol. Bydd yn rhaid i brosiectau cyfalaf y byddwn yn eu hariannu yn y dyfodol hefyd gwrdd â safonau priodol Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau.

## At y dyfodol:

Yn ogystal â pharhau i wella ein perfformiad amgylcheddol ein hunain ac felly leihau ein heffaith ein hunain ar yr amgylchedd, rydym yn awyddus i ddylanwadu ar y sefydliadau a'r artistiaid yr ydym yn eu hariannu i wneud yr un fath.

Bydd ein polisi datblygu cynaliadwy yn targedu'n benodol ein sefydliadau sy'n cael arian refeniw drwy gyfuniad o gymorth a chefnogaeth, rhaglenni ariannu a hyfforddiant a rhannu gwybodaeth sydd wedi'u hwyluso.

Rydym yn bwriadu hefyd godi ymwybyddiaeth drwy wneud y canlynol: partneriaethau a chydweithio; ymwneud â rhwydweithiau perthnasol; creu a hwyluso cyfleoedd i ymgysylltu â'r materion; ac eiriol dros swyddogaeth y celfyddydau ym mhroses newid cymdeithasol.

Rydym yn ystyried ein polisi datblygu cynaliadwy yn rhywbeth sy'n mynd y tu hwnt i faterion amgylcheddol yn unig a bod yn weithredydd er newid wrth wella ymwybyddiaeth a pherfformiad amgylcheddol ymhlith y bobl yr ydym yn eu hariannu. Ac wrth wneud hyn bydd yn ein galluogi i chwarae ein rhan wrth ddarparu gweledigaeth Llywodraeth Cymru sydd ym *Mil Cenedlaethau'r Dyfodol*.



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu  
11 Gorffennaf 2014



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd  
11 Gorffennaf 2014



## Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Tâl y Cyngor bob aelod o'i staff, ac eithrio'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn unol â system gyflog a graddio y cytunwyd arni ac a gynhelir gan yr Adran Adnoddau Dynol. Mae polisi gwerthuso swyddi ar waith a gall y staff apelio graddio eu swyddi yn unol â hwnnw. Cytunwn â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mewn ymgynghoriad â'r undeb llafur cydnabyddedig llunir cylch gwaith cyflog a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r pecyn cyflog ac amodau canlynol yn gyfrwymol ar y Cyngor cyfan tan y cylch negodi nesaf. Dibynna cynnydd dan y cylch gwaith cyflog ar berfformiad a sefydlwyd gan system y Cyngor o adolygiadau datblygiad personol.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiafsymiol i fusnes y Cyngor. Rhydd Llywodraeth Cymru hefyd gyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn.

Yng nghydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr mae cyflog sylfaenol a bonws blynyddol. Argymhella'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fonysau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn nifer o amcanion a bennwyd ymlaen llaw. Cyfunir canran o'r cynnydd, fel y cynghorir gan Lywodraeth Cymru, â chyflog y Prif Weithredwr a thelir y gweddill fel dyfarniad heb ei gyfuno. Yn absenoldeb canllawiau oddi wrth Lywodraeth Cymru o ran newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr, nid oedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gallu penderfynu a oedd modd talu cynnydd yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad ni chafodd y Prif Weithredwr gynnydd neu fonws ar wahân o ran 2013/14.

Ceir manylion pellach am gydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr eraill yn nodyn 9b o'r datganiadau ariannol. Archwilir y wybodaeth hon.

Penodir aelodau'r Cyngor gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hailbenodi am gyfnod pellach o dair blynedd. Penodwyd y Cadeirydd presennol, yr Athro Dai Smith, yn aelod o'r Cyngor ar 1 Ebrill 2004, ond daeth yn Gadeirydd ar 1 Ebrill 2006. Wedyn penododd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yr Athro Dai Smith am dymor o dair blynedd (1 Ebrill 2007-31 Mawrth 2010), adnewyddodd y Gweinidog dros Dreftadaeth ei benodiad am dair blynedd arall (hyd at 31 Mawrth 2013) a chyhoeddodd y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth y pery'r Athro yn ei swydd tan 31 Mawrth 2016. Cyflogir y Prif Weithredwr ac uwch gyfarwyddwyr ar gontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor.

Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus, mae hawl gan y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr i gael rhybudd o 13 wythnos i derfynu eu cyflogaeth.

Dyddiadau dechrau cyflogaeth yw: Yr Athro Dai Smith (Cadeirydd) 1 Ebrill 2006; Nicholas Capaldi (Prif Weithredwr) 15 Medi 2008; David Alston (Cyfarwyddwr y Celfyddydau) 1 Gorffennaf 2005; Katherine Davies (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu o 1 Chwefror 2012 ymlaen), 24 Awst 1998; Diane Hebb (Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymglyfranogi o 1 Chwefror 2012), 13 Ionawr 1992; Siân Tomos (Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio o 1 Chwefror 2012 ymlaen), 3 Mai 1994; a Hywel Tudor (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau) 21 Ionawr 2002.

Aelodau o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol  
a wasanaethodd er 1 Ebrill 2013 oedd:

Yr Athro Dai Smith (aelod o'r Cyngor);  
Margaret Jervis MBE DL (aelod o'r Cyngor); a  
Dr John Geraint (aelod o'r Cyngor).



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu  
11 Gorffennaf 2014



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd  
11 Gorffennaf 2014

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Erthygl 11 o'r Siarter Frenhinol ddyddiedig 30 Mawrth 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad cyfrifon ar ffurf a sail a bennir gan Weinidogion Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Paratoir y cyfrifon ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, ei adnoddau i mewn a'r ffordd y defnyddir adnoddau, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (diwygiwyd 2005), ac i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- ufuddhau i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu dros y Cyngor. Nodir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Cyngor, ym Memorandwm i Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.



Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu  
11 Gorffennaf 2014



Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd  
11 Gorffennaf 2014

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru

Ar dystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol cyfrif gweithgareddau cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 dan erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y datganiad gweithgareddau ariannol, y fantolen, datganiad llif arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Archwiliais hefyd y wybodaeth yn yr Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel rhai archwiliedig.

## **Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**

Fel yr eglurir yn fanylach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu ac ef sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blyneddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol, a'r datganiadau ariannol yn unol ag Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol imi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

## **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Cynhelir archwiliad i gael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys

asesu'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Hefyd darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad Blyneddol yr ymddiriedolwyr i nodi unrhyw anghysonderau sylweddol o'u cymharu â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau yn fy adroddiad.

## **Barn ar y Datganiadau Ariannol**

Yn fy marn, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2013 a'i ddiffyg a'i lifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddir dan erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor;
- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol yr ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

16 Gorffennaf 2014

Cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru yw cynnal gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a sicrhau cywirdeb; nid yw'r gwaith a gyflawnwyd gan yr ymchwilydd yn cynnwys ystyriaeth ar y materion yma ac o ganlyniad nid yw'r archwilydd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a ddigwydd i'r datganiadau ariannol unwaith y cyflwynwyd hwy'n y lle cyntaf ar y wefan.

Datganiad o Weithgareddau Ariannol  
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

	Nodyn	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	2014 Cyfanswm £'000	2013 Cyfanswm £'000
<b>ADNODDAU SY'N DOD I MEWN</b>					
Adnoddau sy'n dod i mewn o arian a gynhyrchwyd					
<i>Incwm gwirfoddol:</i>					
Grant cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru	3	29,826	4,400	34,226	34,247
Grantiau a rhoddion eraill	4	-	845	845	2,409
Is-gyfanswm Incwm Gwirfoddol		29,826	5,245	35,071	36,656
<i>Gweithgareddau cynhyrchu arian:</i>					
Gwasanaethau a nawdd	5	148	63	211	267
<i>Incwm buddsoddi:</i>					
Llog banc		9	-	9	17
Adnoddau eraill sy'n dod i mewn	6	508	-	508	174
<b>Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn</b>		<b>30,491</b>	<b>5,308</b>	<b>35,799</b>	<b>37,114</b>
<b>ADNODDAU A WARIWYD</b>					
Gweithgareddau elusennol	7,8,9	31,538	5,158	36,696	36,678
Costau llywodraethu	10	89	-	89	87
Grant cymorth a roddwyd i Lywodraeth Cymru		-	300	300	-
Llog banc a ildwyd i Gronfa Gyfunol Cymru		9	-	9	17
<b>Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd</b>		<b>31,636</b>	<b>5,458</b>	<b>37,094</b>	<b>36,782</b>
<b>Adnoddau net a dderbyniwyd/(a dalwyd allan)</b>		<b>(1,145)</b>	<b>(150)</b>	<b>(1,295)</b>	<b>332</b>
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	15	30	(30)	-	-
<b>Symudiad net yn yr arian</b>		<b>(1,115)</b>	<b>(180)</b>	<b>(1,295)</b>	<b>332</b>
Balansau arian a ddygwyd ymlaen		2,823	412	3,235	2,903
<b>Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen</b>		<b>1,708</b>	<b>232</b>	<b>1,940</b>	<b>3,235</b>

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 55 - 78 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

# Mantolen

ar 31 Mawrth 2014

	Nodyn	2014		2013	
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau sefydlog</b>					
Asedau sefydlog anniriaethol	11a		7		15
Asedau sefydlog diriaethol	11b		249		295
			<u>256</u>		<u>310</u>
<b>Buddsoddi yn</b>					
Cerdd Cymru: Music Wales Cyf	1b, 20		-		-
<b>Asedau cyfredol</b>					
Grantiau a dalwyd ymlaen llaw	12	496		516	
Dyledwyr a rhagdaliadau eraill	13	1,216		2,281	
Arian a phethau cyfwerth ag arian		1,021		1,491	
		<u>2,733</u>		<u>4,288</u>	
<b>Credydwyr: symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn</b>					
Grantiau taladwy		(504)		(104)	
Credydwyr eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		(545)		(1,259)	
	14	<u>(1,049)</u>		<u>(1,363)</u>	
<b>Asedau cyfredol net</b>			<u>1,684</u>		<u>2,925</u>
<b>Cyfanswm yr asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol</b>			1,940		3,235
<b>Asedau net</b>			<u><u>1,940</u></u>		<u><u>3,235</u></u>
Cynrychiolwyd gan:					
<b>Gronfeydd</b>					
Cronfeydd anghyfyngedig	15		1,708		2,823
Cronfeydd cyfyngedig	15		232		412
			<u>1,940</u>		<u>3,235</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 55 - 78 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan

*Nicholas Capaldi*

Nicholas Capaldi  
Swyddog Cyfrifyddu  
11 Gorffennaf 2014

*Dai Smith*

Yr Athro Dai Smith  
Cadeirydd  
11 Gorffennaf 2014

## Datganiad Llif Arian

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

	Nodyn	2014 £'000	2013 £'000
<b>Mewnlif arian net/(all-lif) o weithgareddau gweithredu</b>	17a	(414)	(6,101)
Llog banc		9	17
		<hr/>	<hr/>
		(405)	(6,084)
Gwariant cyfalaf	17b	(65)	(76)
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian yn y flwyddyn</b>	17c	<hr/> <b>(470)</b> <hr/>	<hr/> <b>(6,160)</b> <hr/>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 55 - 78 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn



# Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol

## 1. Polisiâu cyfrifyddu

### a. Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyfredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a bodlonant ofynion Deddf Elusennau 2006 a 2011, cyfarwyddiadau'r Comisiwn Elusennau ar Gyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (diwygiedig 2005) a Datganiadau o Ymarfer Safonol Cyfrifyddu a Safonau Adrodd Ariannol a gyflwynwyd ac a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu cyn belled bod y gofynion yn briodol. Yn ogystal â chydymffurfio â'r Datganiad Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau, rhoddir ystyriaeth i *Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad Arfer a Argymhellir. Nodir isod grynodedb o'r prif bolisiâu cyfrifyddu sydd wedi'u cymhwyso'n gyson.

Dan Gyfarwyddiadau Cyfrifon ar wahân mae'r driniaeth gyfrifyddu a gaiff grantiau cyffredinol a grantiau'r loteri yn wahanol iawn. Felly, gan ystyried paragraff 359 o Ddatganiad Arfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau (a ddiwygiwyd yn 2005), ym marn yr ymddiriedolwyr mae'n amhriodol paratoi cyfrif cyfunol gan na roddai ddarlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddia'r Cyngor ei adnoddau. Ond darperir cyfanswm yr adnoddau i mewn ac amcan o'r gwariant elusennol uniongyrchol cyfun ar y celfyddydau yn nodyn 2.

### b. Cerdd Cymru:Music Wales Cyf

Mae gan y Cyngor fudd 50% yn Cerdd Cymru:Music Wales Cyf, sef cyd-drefniant â'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig. Yn unol ag FRS 9 y cyfrifir y budd hwn yn gyd-drefniant

nad yw'n endid na chyfunwyd â datganiadau ariannol y Cyngor. Yn lle gwneud hyn, nodwyd ein cyfran o lif arian yn Cerdd Cymru:Music Wales a chyfrifyddwyd amdani yn natganiad y gweithgareddau ariannol petai'n rhan o weithrediadau'r Cyngor. Dangosir unrhyw symiau sy'n ddyledus i Cerdd Cymru:Music Wales neu'n ddyledus ganddi inni dan y penawdau priodol yn y fantolen. Ni chyfunwyd y trefniant ac felly ni chofnodir unrhyw fuddsoddiad yn Cerdd Cymru:Music Wales yn ei gost hanesyddol, llai'r lleihad yn y gwerth i adlewyrchu cyfran y Cyngor o'r asedau net, lle mae hyn yn is. Ni chymer y datganiadau ariannol i ystyriaeth unrhyw warged a gynhyrchir ac a ddelir yn Cerdd Cymru:Music Wales am fod cyfyngiadau arno ac ansicrwydd ynghylch ei ddsbarthu. (Gweler nodyn 20)

### c. Incwm

Rhoddir cyfrif am bob incwm ar sail cronïadau, heblaw am gymynroddion, cyfraniadau a rhoddion a gydnabyddir dim ond pan gânt eu derbyn. Trinnir grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy fel adnoddau sy'n dod i mewn.

Ni chofnodir incwm yn wariant net yn natganiad gweithgareddau ariannol.

### ch. Dosbarthu Loteri

Ni chwmpasa'r datganiadau ariannol hyn swyddogaeth y Cyngor i ddsbarthu'r loteri y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar ei chyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Âr Cyngor i gostau sy'n cynnal ei swyddogaeth o weithgareddau cyffredinol a dosbarthu arian y loteri. Yn unol â'r Cyfarwyddyd Ariannol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, dosranna'r Cyngor gostau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes hyn o weithgarwch gan gyfeirio at yr amser a dreuliant neu'r adnoddau a ddefnyddiant.

#### d. Adnoddau a werir

Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddsbarthu dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

#### dd. Grantiau a roddwyd

Ceir gwariant cymhorthdal ar ffurf grantiau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau a ariannwn. Cynigir grantiau er mwyn cynnal rhaglen o weithgareddau y cynlluniwyd ar eu cyfer, neu sy'n cychwyn mewn blwyddyn ariannol benodol a chodir hwy ar ddatganiad o Weithgareddau Ariannol y flwyddyn honno.

Ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ni chodir ymrwymadau ymlaen a wneir yn y flwyddyn sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y flwyddyn nesaf fel y dywed nodyn 19. Ym marn yr ymddiriedolwyr ni fyddai cynnwys y grant cymorth i gwrdd â'r ymrwymadau hyn yn rhoi golwg wir a theg ar ddefnydd y Cyngor o'i adnoddau am nas cydnabyddir nes ei dderbyn.

Dangosir grantiau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn yn gredydwr yn y Fantolen. Dangosir unrhyw ragdaliadau a wnaed mewn perthynas â grantiau a gymeradwywyd yng nghyswllt weithgareddau yn y dyfodol yn y fantolen fel asedau cyfredol.

Mae pob grant a gynigiwyd wedi'i restru yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

#### e. Gwasanaethau a nawdd

Cynnwys gwasanaethau a nawdd y costau uniongyrchol, gan gynnwys staff a dibisiant, y gellir eu priodoli i weithgareddau elusennol.

#### f. Dyrannu costau gweithredu

Dyrannwyd hwy yn y lle cyntaf rhwng gweithgareddau elusennol a llywodraethu. Rhannwyd costau gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau elusennol i adlewyrchu'r amser a dreulia'r staff wrth ddarparu gweithgareddau uniongyrchol a chefnogi eu darparu. Mae dyraniad a dadansoddiad y costau hyn yn nodyn 7, 8 a 9.

#### ff. Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu yn cynnwys pob cost sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor fel elusen a'i gydymffurfiaeth â rheoleiddio ac arferion da. Dadansoddir y costau hyn yn nodyn 10.

#### g. Arian tramor

Trosir yn unol â'r gyfradd gyffredinol ar adeg y trafodyn arian refeniw a gafwyd a gwariant yr aed iddo mewn arian tramor. Trosir yn unol â'r gyfradd gyffredinol ar adeg dyddiad y fantolen unrhyw falansau a nodir mewn arian tramor. Trosir yn unol â chyfradd y contract trafodion a balansau a gwmpesir gan flaengontractau.

#### ng. Cydnabod rhwymedigaethau

Cydnabyddir rhwymedigaethau pan gyfyd rhwymedigaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd o ganlyniad i trafodion neu ddigwyddiadau yn y gorffennol.

#### h. Cyfrifyddu cronfeydd

Cronfeydd cyfyngedig yw'r rhai a ddefnyddir yn ôl cyfyngiadau penodol a orfodir gan roddwyr neu a wnawn am resymau penodol. Mae'r gost o godi a gweinyddu arian o'r fath wedi'i chodi ar y gronfa benodol. Nodir amcan a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cronfeydd anghyfyngedig yw'r rhai sydd ar gael i'w ddefnyddio yn ôl ein disgrisiwn i hyrwyddo amcanion ein siarter ac na ddynodwyd at unrhyw ddibenion eraill.

Lle dyrennir costau cynnal i weithgareddau elusennol cyfyngedig trosglwyddir swm o'r arian anghyfyngedig i dalu'r costau hyn.

#### **i. Asedau sefydlog**

Perchnogwn ddau eiddo rhydd-ddaliadol (Theatr y Sherman a Stiwdio Ddawns Rubicon) a osodir ar brydlesau hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gennym a heb ddarpariaeth inni eu hailfeddiannu. Yn seiliedig ar gyngor gan syrfewyr siartredig allanol ac annibynnol, ystyrir bod gwerth gweddilliol y buddiannau rhydd-ddaliadol hyn yn fach iawn felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Trinnir costau datblygu gwefan, yn unol â chrynodeb 29 o'r Tasglu Materion Brys yn asedau sefydlog diriaethol.

Trinnir trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol fel asedau sefydlog anniriaethol os cwmpasant fwy nag un flwyddyn.

Ac eithrio eiddo rhydd-ddaliadol, cynhwysir pob ased sefydlog diriaethol ac anniriaethol ar gost hanesyddol lai rhywfaint am ddibrisiant ac amorteiddiad. Yn ein barn nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth y llyfr ac un y farchnad.

#### **j. Amorteiddiad a dibrisiant**

Cyfafeir asedau unigol sy'n costio £1,000 ac yn ddrutach a rhoddir blwyddyn gyfan o ddibrisiant yn y flwyddyn gaffael. Darperir amorteiddiad ar asedau sefydlog anniriaethol a dibrisiant ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiant pob ased i'w gwerth gweddilliol ar sail llinell syth dros eu bywyd defnyddiol disgwylidig fel a ganlyn:

Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol - dros 3 blynedd

Gwelliannau prydlesol dros gyfnod y brydles Celfi, gosodion a ffitiadau - dros 10 mlynedd  
Offer - dros 4 blynedd

Costau datblygu gwefan - dros 3 blynedd  
System gyfrifiadurol - dros 3 blynedd

#### **l. Prydlesi**

Codir costau prydlesi gweithredol ar y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros fywyd y brydles.

#### **ll. Pensiynau**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 sy'n darparu buddiannau diffiniedig i'w weithwyr. Codir am gostau ein cyfraniadau ar y datganiad gweithgareddau ariannol fel y gellir rhannu cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr.

Mae hefyd yn gynllun budd diffiniedig, cyflogwyr lluosog felly, ni allwn nodi ein cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag FRS 17.

Cyflwynodd Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd gynllun cyfraniad diffiniedig, Pensiwn y Bobl, a ddaw i rym ar 1 Mai 2014, sy'n ddewis amgen i ddiwallu gofynion deddfwriaeth awtogofrestru. Cyfrifyddir ar gyfer y cynllun yn unol ag FRS 17.

#### **m. Trethiant**

Codir Treth Ar Werth anadenilladwy a ddeillia o wariant ar weithgareddau nad ydynt yn rhai busnes ar y datganiad gweithgareddau ariannol neu caiff ei chyfalafu'n ased sefydlog lle y bo'n gymwys.

## n. Offerynnau ariannol

